



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

64/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

31/10/2017

Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15

Amddifadedd materol

Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15:
Amddifadedd materol

Awdur: Jennifer Hampton

Adroddiad Ymchwil Llawn: Jennifer Hampton (2017) *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15 Amddifadedd materol*.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 64/2017. Ar gael ar: < <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy>>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lisa Walters

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6685

E-bost: lisa.walters@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
1 Cyflwyniad	7
2 Methodoleg	9
3 Dangosyddion amddifadedd materol	20
4 Amddifadedd materol aelwydydd.....	26
4.1 Nodweddion yr ymatebwyr	26
4.2 Perthynas deuluol ac aelwydydd	30
4.3 Cyflogaeth a chyllid	34
4.4 Amddifadedd materol a lle	36
4.5 Amddifadedd materol, llesiant a mynediad at wasanaethau	40
4.6 Crynodeb	43
5 Amddifadedd materol plant.....	44
5.1 Nodweddion yr ymatebwyr	44
5.2 Perthynas deuluol ac aelwydydd	49
5.3 Cyflogaeth a chyllid	53
5.4 Amddifadedd materol a lle	55
5.5 Gofal plant, cymorth i rieni a mynediad at wasanaethau	57
5.6 Crynodeb	60
6 Casgliadau.....	62
Cyfeiriadau	64
Atodiad 1: Tablau amddifadedd materol aelwydydd.....	65
Atodiad 2: Tablau amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant	69

Rhestr o'r tablau

Tabl 3.1: Amddifadedd o ran eitemau penodol i blant yn ôl pob aelwyd â phlant.....	23
Tabl 3.2: Cydberthyniadau cudd rhwng eitemau amddifadedd materol aelwydydd.....	23
Tabl 3.3: Cydberthyniadau cudd rhwng eitemau amddifadedd materol penodol i blant	24
Tabl 3.4: Cydberthyniadau cudd rhwng amddifadedd materol aelwydydd a phlant.....	25
Tabl A1.6.1: Cyfernodau atchweliad amddifadedd materol aelwydydd	65
Tabl A1.6.2: Newid ym mhwynt canran amddifadedd materol aelwydydd.....	67
Tabl A2.7.1: Cyfrannedd aelwydydd â phlant.....	69
Tabl A2.7.2: Mae aelwydydd â hyder rhwng rhieni a phlant yn golygu.....	72
Tabl A2.7.3: Cyfernodau atchweliad amddifadedd materol aelwydydd	72
Tabl A2.7.4: Newidiadau ym mhwyntiau canran aelwydydd â phlant.....	74

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 2.1: Llwyddiant y ffit ar gyfer amddifadedd materol aelwydydd	19
Ffigur 3.1: Nifer yr eitemau sydd ar goll, yn ôl cyfanswm yr aelwydydd	20
Ffigur 3.2: Nifer yr eitemau sydd ar goll, yn ôl aelwydydd sy'n methu un eitem o leiaf.....	20
Ffigur 3.3: Ymatebion i fesurau amddifadedd materol aelwydydd	21
Ffigur 3.4: Ymatebion i fesurau amddifadedd materol plant	22
Ffigur 4.1: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl grŵp oedran	27
Ffigur 4.2: Effaith oedran ar amddifadedd materol aelwydydd	27
Ffigur 4.3: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl rhyw	28
Ffigur 4.4: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl lefel cymhwyster	29
Ffigur 4.5: Effaith cymhwyster addysgol uchaf ar amddifadedd materol aelwydydd	30
Ffigur 4.6: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl statws priodasol	30
Ffigur 4.7: Effaith statws priodasol ar amddifadedd materol aelwydydd.....	31
Ffigur 4.8: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl nifer y plant	32
Ffigur 4.9: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl daliadaeth tai	33
Ffigur 4.10: Effaith daliadaeth tai ar amddifadedd materol aelwyd	34
Ffigur 4.11: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl statws economaidd cyfredol.....	34
Ffigur 4.12: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl statws gweithio'r aelwyd	35
Ffigur 4.13: Effaith statws gwaith aelwyd ar amddifadedd materol.....	36
Ffigur 4.14: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl Awdurdod lleol	37
Ffigur 4.15: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl dosbarthiad trefol-gwledig.....	38
Ffigur 4.16: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl sgôr incwm WIMD	39
Ffigur 4.17: Effaith mesur incwm WIMD ar amddifadedd materol aelwydydd	40
Ffigur 4.18: Ymateb cymedr llesiant personol yn ôl amddifadedd materol	41
Ffigur 4.19: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl mynediad at y rhyngwyd	42
Ffigur 4.20: Uchafswm effaith newidynnau ar amddifadedd materol aelwydydd	43
Ffigur 5.1: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl oedran	45
Ffigur 5.2: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl rhyw	45
Ffigur 5.3: Effaith rhyw ar amddifadedd materol aelwydyddsydd â phlant.....	46
Ffigur 5.4: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl statws iechyd	47
Ffigur 5.5: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl salwch cyfyngus	47
Ffigur 5.6: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl cymhwyster uchaf	48
Ffigur 5.7: Effaith cymhwyster uchaf ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant...	48
Ffigur 5.8: Amddifadedd materol yn ôl statws priodasol, aelwydydd â phlant	49

Ffigur 5.9: Effaith statws priodasol ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant.....	49
Ffigur 5.10: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl nifer y plant	50
Ffigur 5.11: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl plant sydd dan 5 oed .	51
Ffigur 5.12: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl daliadaeth tai	52
Ffigur 5.13: Effaith daliadaeth tai ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant.....	52
Ffigur 5.14: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl statws cyflogaeth	53
Ffigur 5.15: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl statws gwaith	54
Ffigur 5.16: Effaith statws gwaith ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant.....	54
Ffigur 5.17: Amddifadedd materol aelwydydd â phlant, yn ôl dosbarthiad trefol-gwledig..	55
Ffigur 5.18: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl sgôr incwm WIMD.....	56
Ffigur 5.19: Amddifadedd materol aelwydydd â phlant, yn ôl mynediad at wasanaethau .	57
Ffigur 5.20: Hyder rhieni yn eu gallu llythrennedd a rhifedd, yn ôl amddifadedd materol ..	58
Ffigur 5.21: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl mynediad rhyngrwyd..	59
Ffigur 5.22: Effaith fwyaf newidynnau ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant.	61

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Mae [Strategaeth Tlodi Plant](#) a [Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi](#) Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer gwella canlyniadau aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Maent yn anelu at leihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus ymhlith rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a hefyd at leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd yn dlawd.

Yn 2014-15, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch amddifadedd materol aelwydydd a phlant fel ffordd o fesur tlodi, ac yn arbennig fel ffordd o ganfod canlyniadau tlodi tymor hir i aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol tymor byr.

Ar gyfer pob un o'r naw eitem, roedd modd i'r ymatebydd ddweud ei fod yn gallu ei fforddio, nad oedd ei hangen arno, neu yr hoffai'r eitem ond nad oedd yn gallu ei fforddio. Er enghraifft:

- Oes gennych chi a'ch teulu/partner yswiriant cynnwys y cartref?
- Ydych chi a'ch teulu/partner yn newid unrhyw ddodrefn sydd wedi gwisgo?
- Pa mor dda ydych chi am dalu eich biliau a'ch ymrwymadau credyd ar amser ar hyn o bryd?
- Yn y gaeaf, ydych chi'n gallu cadw'r llety hwn yn ddigon cynnes?

Gofynnwyd cyfres ychwanegol o gwestiynau ynghylch mesurau penodol i blant o amddifadedd i ymatebwyr oedd â phlant dibynnol¹ yn byw yn yr aelwyd, ee:

- Oes gan eich plentyn/plant gôt gynnes ar gyfer y gaeaf?
- Oes gan eich plentyn/plant hobi neu weithgaredd hamdden?
- Ydy eich plentyn/plant yn mynd ar deithiau ysgol?

Roedd yr aelwydydd heb lawer o eitemau ar y rhestr gyntaf yn cael eu dosbarthu fel bod mewn "amddifadedd materol aelwydydd" a'r rhai heb lawer o eitemau ar yr ail restr yn cael eu dosbarthu fel bod mewn "amddifadedd materol penodol i blant".

Dull

I ddeall pa ffactorau sy'n rhagfynegi orau a fydd aelwydydd mewn amddifadedd materol, defnyddion ni dechneg ystadegol sy'n caniatáu i ni ynysu effeithiau pob ffactor wrth reoli ar gyfer amrywiaeth o ffactorau eraill ar yr un pryd. Mae hyn yn bwysig oherwydd gallai edrych ar bob ffactor ar ei ben ei hun roi darlun camarweiniol.

Er enghraifft, mae mwy o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol mewn amddifadedd materol na'r rheini sy'n rhentu'n breifat; ac mae mwy o bobl sy'n rhentu'n breifat mewn amddifadedd materol na'r rheini sy'n berchen-feddianwyr. Ond mae cyfansoddiad y

¹ Dosbarthwyd plant dibynnol fel pob un o dan 16 oed a'r rhai rhwng 16 ac 19 oed mewn addysg amser llawn lle'r oedd yr ymatebydd yn rhiant neu'n warcheidwad cyfreithiol.

grwpiau hyn yn wahanol mewn amrywiol ffyrdd (ee oedran, statws cyflogaeth, addysg), ac felly mae'n anodd gwybod a yw tai ar eu pen eu hunain yn gysylltiedig â bod mewn amddifadedd. Mae'r dechneg gwnaethon ni ei defnyddio yn caniatáu i ni reoli ar gyfer y gwahaniaethau yng nghyfansoddiad y grwpiau. Wedi i ni reoli ar gyfer y gwahaniaethau hyn, daeth yn glir fod cysylltiad rhwng bod yn berchen-feddiannydd a bod mewn llai o amddifadedd na phobl sy'n rhentu neu'n byw mewn tai cymdeithasol, ond nad oedd byw mewn tai cymdeithasol ar ei ben ei hun yn gysylltiedig â bod yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na phobl sy'n rhentu'n breifat.

Y prif ganfyddiadau²

Dyma'r ffactorau â'r cysylltiad cryfach ag aelwydydd mewn amddifadedd materol, wrth reoli ar gyfer amrywiaeth o ffactorau eraill:

- Rhentu'n breifat neu fod mewn tai cymdeithasol
- Bod wedi ysgaru
- Heb ddim cymwysterau
- Bod mewn aelwyd heb waith
- Bod yn iau
- Heb ymddeol
- Byw mewn ardal ag incwm cyfartalog is
- Heb fynediad i'r rhyngwrdd
- Bod â salwch cyfyngus hirdymor
- Bod mewn ieched gwael
- Bod yn ferch
- Bod mewn aelwyd un rhiant
- Bod â phlant

Mae'r ffactorau wedi'u rhestru mewn trefn ddisgynnol o'r pwysicaf, felly er enghraifft math o ddeiliadaeth sydd â'r cyswllt cryfaf ag amddifadedd materol aelwydydd.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, ni chynhwyswyd ffactorau y gallai'r profiad o amddifadedd materol effeithio arnynt, megis llesiant personol (hy gallai'r profiad o amddifadedd materol effeithio ar lefelau llesiant, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb). Serch hynny, mae'r berthynas rhwng llesiant personol ac amddifadedd materol yn cael ei harchwilio ar wahân i ffactorau eraill. Canfuwyd bod y rheini sy'n profi amddifadedd materol wedi nodi lefelau is o lesiant a lefelau uwch o bryder.

² Sylwch fod rhai pethau'n wahanol rhwng y rhestr o ragfynegyddion a nodir yn yr adroddiad hwn o'i chymharu â'r adroddiad byr ar wahân "Pwy sy'n debygol o fod mewn amddifadedd materol?" Er bod y ddau adroddiad yn seiliedig ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn 2014-15, mae'r adroddiad presennol yn defnyddio ffordd wahanol o gyfrifo amddifadedd materol, ac mae'n seiliedig ar ddadansoddi mwy manwl o lawer. Mae hefyd yn eithrio ffactorau o'r dadansoddi lle mae'n anodd bod yn siŵr ynghylch cyfeiriad yr achosiaeth. Mae hyn yn golygu bod y ddau adroddiad yn nodi rhai rhagfynegyddion tebyg o amddifadedd materol, ond bod gwahaniaethau rhyngddynt hefyd.

Aelwydydd â phlant

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn archwilio'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd materol aelwydydd cyffredinol yr aelwydydd sy'n cynnwys plant, yn ogystal â'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd materol penodol i blant.

Ar y cyfan, roedd rhieni i weld yn mynd ati i warchod eu plant rhag effeithiau amddifadedd materol penodol i blant: roedd amddifadedd materol penodol i blant yn llai cyffredin nag amddifadedd materol aelwydydd, hyd yn oed pan oedd yr aelwyd gyfan yn profi amddifadedd.

I aelwydydd â phlant, y ffactorau oedd â'r cysylltiad cryfach â phrofi **amddifadedd materol aelwydydd**, gan reoli ar gyfer ffactorau eraill, oedd bod yr ymatebydd:

- Yn rhentu'n breifat neu'n byw mewn tai cymdeithasol
- Heb fynediad i'r rhyngrwyd
- Heb ddim cymwysterau
- Mewn aelwyd heb waith
- Wedi ysgaru
- Yn ferch
- Yn dioddef o salwch cyfyngus hirdymor

Dyma'r ffactorau â'r cysylltiad cryfach â phrofi **amddifadedd materol penodol i blant**, wrth reoli ar gyfer ffactorau eraill:

- Bod yn rhiant iau
- Bod mewn aelwyd heb waith
- Bod wedi ysgaru
- Bod mewn ieched gwael
- Byw mewn ardal ag incwm cyfartalog is
- Byw mewn ardal â mynediad gwael at wasanaethau
- Bod â phlant iau
- Heb fynediad i'r rhyngrwyd
- Yn dioddef o salwch cyfyngus hirdymor
- Heb ddim cymwysterau
- Yn rhentu'n breifat neu'n byw mewn tai cymdeithasol
- Bod â nifer uwch o blant

Ar gyfer pob set, mae'r ffactorau eto wedi'u rhestru mewn trefn ddisgynnol o'r pwysicaf: felly er enghraifft math o ddeiliadaeth sydd â'r cysylltiad cryfach ag amddifadedd materol aelwydydd, a bod yn rhiant iau sydd â'r cysylltiad cryfach ag amddifadedd materol penodol i blant.

1 Cyflwyniad

1.1 Arolwg Cenedlaethol Cymru

Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012-15 yn arolwg wyneb yn wyneb a oedd yn casglu gwybodaeth gan nifer mawr o bobl ledled Cymru. Bob blwyddyn, gofynnwyd i dros 14,000 o bobl 16 oed â hyn am eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnyn nhw a'u hardal leol. Cafodd yr ymatebwyr eu dewis ar hap er mwyn gwneud yn siŵr bod y canlyniadau'n cynrychioli poblogaeth ehangach Cymru.

Nodau'r arolwg oedd helpu Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- monitro tueddiadau ym mhryderon ac anghenion pobl yng Nghymru;
- asesu safbwyntiau a phrofiadau o wasanaethau cyhoeddus;
- adnabod ardaloedd neu grwpiau a fyddai'n gweld budd cymorth ychwanegol;
- gwneud penderfyniadau a thargedau adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Roedd yr arolwg yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau er mwyn helpu i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys:

- demograffeg a hunaniaeth;
- teulu, aelwyd a pherthnasau;
- iechydd a gwasanaethau iechydd;
- llesiant a bodlonrwydd ar wasanaethau;
- gwaith ac arian;
- cymdogaeth a'r ardal;
- trafnidiaeth a theithio llesol.

Yn berthnasol i'r adroddiad hwn, roedd yr arolwg hefyd yn casglu gwybodaeth am amddifadedd materol plant ac aelwydydd / cynhwysiant ariannol. Mae canlyniadau arolwg 2014-15 yn cael eu defnyddio yn yr arolwg hwn i archwilio'r cysylltiadau rhwng amddifadedd materol a'r pynciau a restrir uchod.

Yn 2016-17, ail-lansiwyd yr Arolwg Cenedlaethol gan ymwneud ag amrywiaeth sylweddol ehangach o bynciau. Mae mwy o wybodaeth am yr arolwg ar gael ar [dudalennau gwe'r arolwg](#).

1.2 Y prosiect hwn

Mae [Strategaeth Tlodi Plant](#) a [Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi](#) Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer gwella canlyniadau aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Maent yn anelu at leihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus ymhlith rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a hefyd at leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd yn dlawd.

Un ffordd o fesur tlodi yw gofyn cwestiynau am amddifadedd materol (hy, a yw aelwyd yn gallu fforddio pethau fel cadw'r cartref yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, neu gael gwylliau unwaith y flwyddyn). Mae'r cwestiynau am amddifadedd materol wedi'u dylunio i

ganfod canlyniadau tlodi tymor hir i aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol tymor byr. Mae McKay & Collard (2010) yn gwahaniaethu rhwng mesurau uniongyrchol ac anuniongyrchol o dlodi, sy'n gallu cael eu hystyried mewn ffordd debyg. Mae'r cwestiynau am amddifadedd materol yn mesur safonau byw unigolion. Gellir ystyried hyn yn fesur tymor hir ac uniongyrchol o dlodi. Mae incwm, ar y llaw arall, yn cael ei ystyried yn adlewyrchiad anuniongyrchol o dlodi tymor byr (o bosib).

Yn 2014-15, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau yn deillio o'r Arolwg o Adnoddau Teulu³ am amddifadedd materol aelwydydd a phlant (gweler Adran 2.1 am restr o'r cwestiynau hyn). Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn wahanol i'r Arolwg o Adnoddau Teulu o ran methodoleg a'r wybodaeth mae'n ei chasglu. Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn cyfuno mesurau incwm â'r dangosyddion amddifadedd materol mae'n eu casglu. Ni chasglodd yr Arolwg Cenedlaethol yn 2014-15 wybodaeth am incwm. Yn hytrach, defnyddiodd yr Arolwg Cenedlaethol y dangosyddion amddifadedd materol i geisio canfod effeithiau uniongyrchol tymor hir tlodi. Goblygiadau'r gwahaniaeth hwn yw nad oes modd cymharu canlyniadau'r ddau yn uniongyrchol.

Gofynnwyd y cwestiynau am amddifadedd materol yn bennaf i ganiatáu i ddefnyddwyr o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol draws-ddadansoddi pynciau eraill yn yr arolwg yn ôl a yw aelwyd yr ymatebydd yn profi amddifadedd materol, ac felly i gael gwell dealltwriaeth o amodau pobl sydd mewn amddifadedd materol yng Nghymru⁴. Mae'r adroddiad hwn yn treiddio ymhellach. Mae'r brif dechneg ddadansoddol a ddefnyddiwyd yn galluogi i amddifadedd materol gael ei ymchwilio gan reoli ar gyfer nodweddion eraill yr ymatebwyr. Gallai'r cysylltiadau sy'n ymddangos yn sylweddol ar lefel ddisgrifiadol leihau neu ddiflannu hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Un o gryfderau'r Arolwg Cenedlaethol oedd faint o wybodaeth a gasglwyd am bob ymatebydd a'i aelwyd, ac amrywiaeth y wybodaeth honno. Mae'r prif ddadansoddiadau a ddefnyddir drwy gydol yr adroddiad hwn yn ystyried cyfoeth y data hyn er mwyn archwilio pa nodweddion sy'n disgrifio orau amddifadedd materol aelwydydd a phlant.

³ Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn arolwg a gynhelir ledled y DU sy'n casglu gwybodaeth fanwl am incwm a budd-daliadau, cynilion a buddsoddiadau, galwedigaeth a chyflogaeth, cyfraniad i bensiwn, anabledd, deiliadaeth tai a gofalwyr.

⁴ Mae canlyniadau 2014-15 ar gael yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf o'r Prif Ganlyniadau 2014-15 <http://gov.wales/docs/statistics/2015/150914-national-survey-wales-2014-15-headline-results-revised-cy.pdf>

2 Methodoleg

2.1 Dangosyddion amddifadedd materol

Casglwyd gwybodaeth am lefel o amddifadedd materol yr ymatebwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol gan ddefnyddio cyfres o gwestiynau am fforddiadwyedd gwahanol eitemau. Ar gyfer pob eitem, roedd modd i'r ymatebydd ddweud bod ganddo'r eitem, nad oedd ei hangen arno, neu yr hoffai'r eitem ond nad oedd yn gallu ei fforddio⁵.

Dangosyddion aelwydydd:

- Ydych chi a'ch teulu/partner yn cael gwyliau oddi cartref am o leiaf un wythnos y flwyddyn, heb i chi fod yn aros gyda pherthnasau yn eu cartref?⁶
- Oes gennych chi a'ch teulu/partner ddigon o arian i gadw eich cartref mewn cyflwr addurnol da?
- Oes gennych chi a'ch teulu/partner yswiriant cynnwys y cartref?
- Ydych chi a'ch teulu/partner yn cynilo £10 y mis neu fwy yn rheolaidd ar gyfer diwrnodau glawog neu eich ymddeoliad?
- Ydych chi a'ch teulu/partner yn newid unrhyw ddodrefn sydd wedi gwisgo?
- Ydych chi a'ch teulu/partner yn newid neu'n atgyweirio nwyddau trydanol mawr, megis oergell neu beiriant golchi dillad, pan fyddant wedi torri?
- Oes gennych chi swm bach o arian i'w wario bob wythnos arnoch chi eich hun, nid ar eich teulu?
- Pa mor dda ydych chi am dalu eich biliau a'ch ymrwymadau credyd ar amser ar hyn o bryd?⁷
- Yn y gaeaf, ydych chi'n gallu cadw'r llety hwn yn ddigon cynnes?¹

Gofynnwyd cyfres ychwanegol o gwestiynau ynghylch mesurau penodol i blant o amddifadedd i ymatebwyr oedd â phlant dibynnol⁸ yn byw yn yr aelwyd. Ar gyfer pob dangosydd, gofynnwyd i rieni a oedd gan eu plentyn/plant yr eitem, a oedd dim angen yr eitem ar y plentyn/plant, neu a hoffai'r plentyn/plant ei chael ond nad oedd modd iddynt ei fforddio.

Dangosyddion penodol i blant:

- Oes gan eich plentyn/plant gôt gynnes ar gyfer y gaeaf?
- Ydy eich plentyn/plant yn bwyta ffrwythau a/neu lysiau ffres bob dydd?

⁵ Creating a distinction between choice and constraint. Gweler Hick, R. (2015). Material poverty and multiple deprivation in Britain: The distinctiveness and multidimensional assessment. *Journal of Public Policy*

⁶ O ran yr ymatebwyr nad oedd yn cael gwyliau oddi cartref heb fod yn aros gyda pherthnasau, gofynnwyd iddynt wedyn a oeddent wedi cael gwyliau oddi cartref gan aros gyda pherthnasau.

⁷ Er mwyn dadansoddi, cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn eu dosbarthu'n ymatebion deuaidd gallu fforddio / ddim yn gallu fforddio, oherwydd ystyrir na fyddai unrhyw un, yn rhesymegol, ddim eisiau neu angen gwneud yr un o'r pethau hyn.

⁸ Dosbarthwyd plant dibynnol fel pob un o dan 16 oed a'r rhai rhwng 16 ac 19 oed mewn addysg amser llawn lle'r oedd yr ymatebydd yn rhiant neu'n warcheidwad cyfreithiol.

- Oes digon o ystafelloedd gwely fel nad oes raid i fachgen a merch dros 10 oed rannu ystafell wely?⁹
- Oes gan eich plentyn/plant offer hamdden fel offer chwaraeon neu feic?
- Ydy eich plentyn/plant yn dathlu ar achlysuron arbennig fel pen-blwydd, Nadolig neu wyliau crefyddol eraill?
- Ydy eich plentyn/plant yn cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgarwch rheolaidd yr wythnos sy'n cael ei drefnu y tu allan i'r ysgol, fel grŵp chwaraeon neu grŵp ieuenctid?
- Oes gan eich plentyn/plant hobi neu weithgaredd hamdden?
- Ydy eich plentyn/plant yn gwahodd ffrindiau draw am de neu rywbeth bach i'w fwyta unwaith bob pythefnos?
- Ydy eich plentyn/plant yn mynd i grŵp babanod / meithrinfa / cylch chwarae o leiaf unwaith yr wythnos?¹⁰
- Ydy eich plentyn/plant yn mynd ar deithiau ysgol?¹¹

2.2 Trothwyon amddifadedd materol

2.2.1 Trothwy amddifadedd materol aelwydydd

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn defnyddio dull mynychder wedi'i bwysoli, fel y defnyddir yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu. Yn hytrach na seilio amddifadedd materol ar fesuriad swm syml o nifer yr eitemau sydd ar goll o'r rheini a restrir yn 2.1.1, mae'r dull hwn yn caniatáu ar gyfer y ffaith fod absenoldeb rhai eitemau yn fwy anghyffredin, ac felly gellid ystyried ei fod yn cynrychioli amddifadedd mwy difrifol nag eraill¹². Mae'r eitemau sy'n fwy anghyffredin yn cael pwysoliad uwch, gan adlewyrchu difrifoldeb yr amddifadedd mae diffyg yr eitem arbennig honno'n ei gynrychioli. Mae'r dull mynychder wedi'i bwysoli yn rhoi sgôr rhwng 0 a 100 i bob achos, ac yn mesur graddfa ei amddifadedd materol; mae sgôr o 0 yn cynrychioli dim eitemau ar goll, ac mae sgôr o 100 yn cynrychioli bod pob eitem wedi'i nodi yn amhosib ei fforddio. Er hawdd byddai ei ystyried felly, nid yw'r mesur hwn yn gwbl barhaus; mae'n swm set sefydlog o bwysoliadau â nifer cyfyngedig (ond estynedig) o bosibiliadau. Hefyd, nid yw'n cael ei wasgaru â gwasgariad â sgiw uchel i'r dde fel arfer. Cafodd yr amddifadedd materol 'parhaus' ei ddefnyddio fel adnodd i sefydlu trothwy i'w ddefnyddio i bennu a oedd achosion mewn amddifadedd materol ai peidio.

Yn y gorffennol, mae sgôr trothwy o 25 allan o 100 wedi cael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng y rheini mewn amddifadedd a'r rheini nad ydynt mewn amddifadedd, gyda'r rheini sy'n sgorio 25 neu drosodd yn cael eu dosbarthu fel bod mewn amddifadedd. Mae hyn yn dilyn yr Arolwg o Adnoddau Teulu, a osododd y lefel hon fel bod tua'r un gyfran o blant yn

⁹ Dim ond i'r ymatebwyr oedd â bachgen a merch dros 10 oed y gofynnwyd hyn.

¹⁰ Dim ond i ymatebwyr sydd â phlant dan 6 oed sydd ddim yn mynd i'r ysgol gynradd y gofynnwyd hyn.

¹¹ Dim ond i ymatebwyr sydd â phlant dros neu dan 6 oed sy'n mynd i'r ysgol gynradd y gofynnwyd hyn.

¹² Er y gellid dadlau fod pwysoli yn ôl nifer yr achosion yn cynyddu cymhlethdod ac yn gostwng tryloywder (McKay, S. (2010). *Using the new Family Resources question block to measure material deprivation among pensioners*. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, papur gwaith rhif. 89.).

cael eu dosbarthu fel bod mewn amddifadedd materol ag yr oedd mewn aelwydydd incwm isel. Er bod yr eitemau a ddefnyddiwyd i asesu amddifadedd materol yn deillio o'r Arolwg o Adnoddau Teulu, mae dyluniad a chynnwys yr Arolwg Cenedlaethol yn dra gwahanol. Yn benodol, ni wnaeth yr Arolwg Cenedlaethol yn 2014-15 gasglu gwybodaeth am incwm, ac felly nid oedd modd cyfuno amddifadedd materol ag incwm, ond defnyddiwyd ef fel mesur ar ei ben ei hun. Felly gellir dadlau bod amddifadedd materol fel y cafodd ei fesur yn yr Arolwg Cenedlaethol yn canolbwyntio'n fwy ar amddifadedd tymor hir, yn hytrach na'r cipolwg mae incwm presennol yn ei ddarparu.

Gan fod y torbwynt a ddewiswyd i ddosbarthu aelwydydd fel bod mewn amddifadedd yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu a'r Arolwg Cenedlaethol yn fesur perthynol, yn hytrach nag absoliwt, o amddifadedd, teimlwyd ei bod yn briodol, at ddibenion y dadansoddiad hwn, ei gwneud yn bosibl addasu'r trothwy. Mae'r dull hwn yn cael ei gefnogi ymhellach gan ganfyddiad Pantazis et al (2006)¹³, sef bod pobl sy'n byw yng Nghymru yn llai tebygol, yn gyffredinol, na'r rheini sy'n byw yn rhywle arall o ystyried eitemau penodol yn rhai angenrheidiol. Mae hyn yn amlygu natur oddrychol a chymharol yr eitemau amddifadedd materol. Felly, ar gyfer yr adroddiad hwn, y trothwy a ddefnyddiwyd oedd yr un a oedd yn nodi, yn fras, cwintel gwaelod (hy yr 20% isaf) yr achosion mwyaf amddifadus. Sgôr o 20 oedd y trothwy hwn; roedd y rheini â sgôr o 20 neu uwch yn cael eu hystyried fel bod mewn amddifadedd materol (sy'n nodi 21.5% o aelwydydd mewn gwirionedd). I fod yn y cwintel gwaelod o amddifadedd, rhaid i aelwyd fod yn methu dwy eitem o leiaf¹⁴.

2.2.2 Trothwy amddifadedd materol plant

Yn ogystal â mesurau amddifadedd materol ar lefel aelwyd, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am amddifadedd materol penodol i blant (gweler Adran 2.1.1). Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn gyfrifol am blant sy'n byw yn yr aelwyd. Os oeddent, gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt wedyn am fforddiadwyedd nwyddau, gwasanaethau a gweithgareddau penodol i blant (gweler adran 2.1.1).

Mae modd ymchwilio i amddifadedd materol ar lefel plant mewn modd tebyg i amddifadedd materol ar lefel aelwydydd. Gellir defnyddio dull mynychder wedi'i bwysoli os caiff pob mesur amddifadedd materol ar lefel aelwydydd a phlant ei gynnwys a bod yr un sgôr torbwynt yn cael ei ddefnyddio (hy 20 yn yr achos hwn) i bennu'r aelwydydd yn cynnwys plant a allai gael eu hystyried fel bod mewn amddifadedd materol.

¹³ Pantazis, C., Gordon, D. a Levitas, R. (2006). *Poverty and Social Exclusion in Britain*. Bryste: The Policy Press.

¹⁴ Hwn oedd y trothwy a awgrymwyd gan y dadansoddiad ffwythiant gwahanolion a gynhaliwyd gan Gordon et al. (2000) i bennu nifer priodol yr eitemau oedd angen bod ar goll i ddosbarthu unigolyn fel bod mewn amddifadedd materol yn briodol. Yr unig eithriad i hyn yw lle mae ymatebydd yn nodi nad yw'n gallu fforddio mynd ar wyliau na newid dodrefn. Os mai dyna'r achos, ni fydd yn cyrraedd y trothwy amddifadedd (ond bydd yn ei gyrraedd os nad yw chwaith yn gallu fforddio gwylliau gan aros gyda pherthnasau).

Serch hynny mae problemau'n gysylltiedig â defnyddio'r dull mynychder wedi'i bwysoli hwn ar gyfer y mesurau amddifadedd materol plant. Mae rhan o hyn yn ymwneud â chanolbwynt yr eitemau. Fel y gwelir yn Adran 2.1.1, mae mwyafrif yr eitemau i weld yn berthnasol i blant oedran ysgol gynradd yn bennaf, er gellir eu gofyn yng nghyswllt unrhyw blentyn yn yr aelwyd y mae'r ymatebydd ym gyfrifol amdano¹⁵. Felly, wrth ddefnyddio dull mynychder wedi'i bwysoli, mae gan blant yn yr ystod oedran hon siawns uwch o gael eu nodi fel bod mewn amddifadedd materol. Ar ben hynny, mae gan yr aelwydydd hynny â phlant o wahanol oedrannau siawns uwch o sgôr uwch. Nid yw'r cyfrifiad hwn yn ystyried sawl plentyn o wahanol oedran a allai fod yn yr aelwyd, fel bod modd dosbarthu aelwyd ag amrywiaeth eang o oedrannau fel bod mewn mwy o amddifadedd materol. Mae hyn oherwydd bod mwy o eitemau yn berthnasol i'w plant na'r aelwydydd sydd â'r un lefel o dlodi ond â phlant mewn ystod oedran fwy cul. Mae hyn yn fwyaf amlwg wrth ystyried y sgôr eithaf o 100. I gael y sgôr hwn, rhaid i'r aelwyd beidio â chael unrhyw o'r eitemau, ond nid yw hynny'n bosib oni bai fod yno blant o oedran ysgol ac oedran cyn ysgol, ynghyd â bachgen a merch dros 10 oed¹⁶. O ganlyniad i'r problemau hyn, ystyriwyd dulliau amgen ar gyfer nodi a dosbarthu amddifadedd materol.

Gan ddefnyddio meini prawf yr adran flaenorol i bennu trothwy amddifadedd materol, roedd 32% o aelwydydd â phlant dibynnol mewn amddifadedd. Cafodd un aelwyd o bob pump a gymerodd ran yn yr Arolwg Cenedlaethol eu dosbarthu fel bod mewn amddifadedd materol. Nododd llai na chwarter o'r rheini â phlant dibynnol (22%) eu bod yn methu unrhyw o'r eitemau penodol i blant¹⁷. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau McKay & Collard (2004)¹⁸ ac yn awgrymu bod rhieni, yn gyffredinol, yn gwarchod plant rhag rhai o effeithiau niweidiol amddifadedd.

Anaml iawn gwnaeth yr aelwydydd nad ydynt mewn amddifadedd materol nodi unrhyw amddifadedd o ran eitemau penodol i blant (2%). Mae'r ffaith fod rhai wedi yn codi rhywfaint o gwestiynau diddorol am yr aelwydydd penodol hynny. Yn wir, nid yw'r berthynas rhwng aelwyd ac amddifadedd materol penodol i blant mor gryf na mor llinol ag y gallech dybio. Wrth ystyried nifer yr eitemau sydd ar goll yn unig, byddech yn disgwyl gweld fod nifer yr eitemau penodol i blant nad oes gan blant yn cynyddu wrth i nifer yr eitemau sydd ar goll ar lefel aelwyd gynyddu. Er bod y cydberthyniad ar gyfer hyn yn dangos perthynas bositif, canolig ydy'r cydberthyniad ($r = 0.41$).

Ar gyfer yr adroddiad hwn, pennwyd bod achosion yn profi amddifadedd penodol i blant os oedd yr aelwyd mewn amddifadedd ac roedd o leiaf un eitem penodol i blant ar goll. Cafodd 7% o aelwydydd yn cynnwys plant eu hystyried fel bod mewn amddifadedd

¹⁵ Pob plentyn dan 16 oed ac unrhyw unigolion rhwng 16 ac 19 oed mewn addysg amser llawn.

¹⁶ Er ei bod yn bosibl ystyried cyfansoddiad plant yr aelwyd er mwyn rheoli ar gyfer y mathau hyn o nodweddion, mae hynny tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

¹⁷ Am fanylion dangosyddion unigol, gweler adran 3.

¹⁸ McKay, S. & Collard, S. (2004). *Developing deprivation questions for the Family Resources Survey*. Llundain: Papur Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif. 13.

materol gan ddefnyddio'r mesur diwethaf hwn. Mae gwahanu'r aelwydydd hynny sy'n profi amddifadedd materol ond nid amddifadedd penodol i blant a'r rheini sy'n profi amddifadedd aelwydydd ac amddifadedd penodol i blant yn galluogi ymchwiliad pellach i'r hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng y ddau grŵp hyn.

Felly ystyriwyd amddifadedd materol aelwydydd yn cynnwys plant yn un o dri chanlyniad posibl:

- ddim yn profi unrhyw amddifadedd materol;
- mewn amddifadedd materol aelwydydd yn unig; neu
- mewn amddifadedd penodol i blant (sydd o reidrwydd yn cynnwys amddifadedd aelwydydd).

2.3 Dadansoddi

Oni nodir fel arall, cynhaliwyd y dadansoddiadau a nodir gan ddefnyddio Stata/IC fersiwn 13.

2.3.1 Cydberthyniadau

Cafodd y berthynas rhwng dangosyddion unigol amddifadedd materol, fel y disgrifiwyd yn adrannau 2.1 a 3, ei harchwilio gan ddefnyddio dadansoddiadau cydberthynol. Er bod modd i ymatebwyr ymateb mewn un o dair ffordd o ran fforddiadwyedd pob eitem, cafodd yr ymatebion eu rhannu, at ddibenion y rhan hon o'r dadansoddi, yn y modd canlynol – yn gallu fforddio'r eitemau, neu ddim yn gallu fforddio'r eitemau. Cafodd y rheini a ddywedodd eu bod yn gallu fforddio'r eitemau eu grwpio gyda'r rheini a ddywedodd nad oedd angen neu eisiau eitem benodol arnynt. Felly mae'r cydberthyniadau yn ymchwilio i gryfder y berthynas rhwng methu fforddio eitemau.

O ganlyniad i natur ddeubarthol y mesur, cynhaliwyd cydberthyniadau cudd (a elwir hefyd yn gydberthyniadau *tetrachoric*). Er y cânt eu defnyddio fel rhagflaenydd i ddadansoddiad ffactor, mae cydberthyniadau cudd yn gallu bod yn ddefnyddiol ynddynt eu hunain. Prif dybiaeth y dadansoddiad yw newidynnau parhaus gwaelodol ('cudd')¹⁹. Gellir derbyn y dybiaeth hon pan ystyrir natur amddifadedd materol. Os ydym yn dychmygu y gellir mesur amddifadedd materol ar raddfa o 0-100, gyda 0 yn golygu dim profiad o amddifadedd a 100 yn golygu amddifadedd llwyr, mae'n rhesymol tybio bod pobl yn profi amddifadedd ar wahanol bwyntiau ar y raddfa hon yn hytrach nag ar y ddau bwynt eithaf. Mae'r dadansoddiad yn dychwelyd matrices cydberthyniad. Mae ei gyfernodau, sy'n amrywio o -1 i 1, yn gallu cael eu dehongli mewn modd tebyg i gyfernodau mwy cyffredin Pearson; gyda -1 yn awgrymu cysylltiad negyddol cryf, 0 yn awgrymu dim cysylltiad, ac +1 yn awgrymu cysylltiad positif cryf. Yn ogystal â darparu'r wybodaeth hon am gryfder y cysylltiadau,

¹⁹ Ac wedi'i wasgaru'n arferol, er gellir llacio'r dybiaeth hon. Gweler <http://john-uebersax.com/stat/tetra.htm>

gellir hefyd defnyddio'r matrices cydberthyniad i ddadansoddi'r berthynas amlamryweb rhwng y dangosyddion deubarthol²⁰.

Mae tri matrices cydberthyniad wedi'u darparu yn Adran 3.2, sy'n archwilio cryfder y berthynas rhwng dangosyddion aelwyd, dangosyddion penodol i blant, a rhwng dangosyddion aelwyd a phenodol i blant.

2.3.2 Ystadegau disgrifiadol

Mae'r ystadegau disgrifiadol drwy gydol yr adroddiad yn rhoi cyfrannau o amddifadedd materol mewn amrywiol is-grwpiau o'r sampl. Mae'r cyfrannau hyn (yn gyffredinol) yn cael eu cyflwyno fel siartiau bar gyda bariau gwall ategol sy'n cynrychioli ffiniau uchaf ac isaf y cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder yn adlewyrchu'r ffaith fod elfen o ansicrwydd ynghlwm wrth amcangyfrifon a gynhyrchir gan y sampl wrth eu hallosod i'r boblogaeth y tynnwyd y sampl ohoni. Er nad ydym yn gallu bod yn siŵr fod cyfran y boblogaeth yr un fath ag y cawsom yn ein sampl ni, gallwn fod yn hyderus y byddai'r gyfran, mewn 95% o samplau o'r boblogaeth, rhywle rhwng ffiniau uchaf ac isaf y cyfwng hyder. Lle nad oes bariau gwall wedi'u darparu yn y Ffigurau, maent ar gael yn y tabl Atodol perthnasol.

Mae gan fariau gwall y budd ychwanegol o awgrymu a yw'r gwahaniaeth rhwng dau amcangyfrif neu fwy yn ystadegol arwyddocaol ai peidio. Er nad yw mor drylwyr â phrofi ystadegol ffurfiol, os nad yw'r bariau gwall yn gorgyffwrdd, gallwn ddod i'r casgliad ei bod yn debygol iawn fod gwahaniaeth go iawn rhwng y grwpiau. I fod yn fwy manwl, mae canlyniad ystadegol arwyddocaol yn awgrymu bod llai na 5% o siawns o ddod o hyd i wahaniaeth yn y sampl os nad oes gwahaniaeth o'r fath yn bodoli yn y boblogaeth. Er bod profion ystadegol ffurfiol yn ddull mwy manwl, mae gan y rheol gyffredinol bar gwall y fantais o fod yn amcangyfrif ceidwadol sy'n lleihau'r siawns uwch o ddod o hyd i ganlyniad positif anghywir (dod o hyd i wahaniaeth lle nad oes un) sy'n gysylltiedig â chynnal mwy nag un gymhariaeth.

I wella cywirdeb yr amcangyfrifon a gynhyrchwyd ymhellach, defnyddiwyd newidyn pwysoli²¹ a oedd yn addasu'r sampl i adlewyrchu nodweddion Cymru gyfan yn well. Mae'r pwysoliad arolwg a ddefnyddiwyd yn gwneud hyn drwy addasu'r sampl fel bod ganddi'r un proffil oedran a phroffil rhyw â'r rheini yn y boblogaeth. Yn ogystal, cafodd natur haenedig y sampl ei hystyried wrth gynhyrchu ystadegau disgrifiadol a chyfrannau. Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i rannu'n haenau yn ôl awdurdod lleol, gyda gwahanol debygolrwydd samplo i bobl mewn gwahanol awdurdodau. Mae rhannu'n haenau yn y modd hwn yn gallu arwain at wallau safonol mwy (sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo cyfyngau hyder) nag y canfyddir pe bai sampl ar hap syml yn cael ei defnyddio. Os nad yw haenau'n cael eu hystyried, gall cyfyngau hyder ymddangos yn llai nag y dylent. Mae gan hyn oblygiadau o

²⁰ Defnyddio dadansoddiad ffactor. <http://www.stata.com/manuals13/tetrachoric.pdf>

²¹ I gael manylion am sut cyfrifwyd y pwysoliadau, gweler Hanson, T. & Sullivan, S. (2015). Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Adroddiad Technegol. <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151005-national-survey-2014-15-technical-report-en.pdf>

ran asesu cywirdeb yr amcangyfrifon a gynhyrchir ac os defnyddir bariau gwall i asesu arwyddocâd ystadegol.

Mae'r cyfrannau a nodir yn seiliedig ar ganrannau dilys (wedi'u pwysoli); cafodd gwerthoedd ar goll (hy y rheini a wrthododd ateb neu a ddywedodd nad oeddent yn gwybod) eu heithrio o'r dadansoddi.

2.3.3 Atchweliadau

Mae natur ffenomenau cymdeithasegol, megis amddifadedd materol, yn gymhleth ac mae sawl agwedd iddynt. Er bod ystadegau disgrifiadol yn darparu darlun cyffredinol o'r berthynas rhwng newidynnau, mae eu gallu i ddadansoddi'r berthynas gymhleth a allai ddigwydd yn gyfyngedig. Er enghraifft, gellir disgrifio amddifadedd materol yn ôl nifer o nodweddion ardal, aelwyd ac unigol (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'newidynnau esboniadol'²²).

Dylid archwilio'r berthynas ar lefel unamryweb yn gyntaf (hy rhwng amddifadedd materol ac un newidyn esboniadol). Dadansoddiad unamryweb yw'r profi ystadegol ffurfiol sy'n fwy trylwyr nag archwilio bariau gwall, a amlygir yn adran 2.3.2. Mae'n asesu a yw'r gwahaniaeth rhwng grwpiau a welir yn y sampl yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwir' a welir yn y boblogaeth.

Er bod hyn yn ddefnyddiol i ryw raddau, mae'n anwybyddu'r berthynas gymhleth rhwng y newidynnau esboniadol eu hunain. Mae dadansoddiad amlamryweb yn caniatáu i'r berthynas rhwng newidynnau esboniadol a'r newidyn canlyniad gael ei harchwilio gan ystyried newidynnau esboniadol eraill sy'n effeithio ar y canlyniad ar yr un pryd.

Gan fod y newidyn canlyniad yn ddeuaidd yn yr achos hwn, hy mae'r aelwyd un ai mewn amddifadedd materol neu nid yw mewn amddifadedd materol, atchweliad logistaidd oedd y dadansoddiad amlamryweb a ddefnyddiwyd yn y dadansoddi canlynol. Er bod yr atchweliadau penodol a ddefnyddiwyd i fodelu amddifadedd materol aelwydydd ac amddifadedd materol plant ychydig yn wahanol i'w gilydd, roedd y weithdrefn i adnabod newidynnau esboniadol o ddiddordeb yr un fath drwy gydol y broses.

Mae'r canlynol yn disgrifio'r weithdrefn a ddefnyddiwyd i adnabod y newidynnau esboniadol sy'n bwysig er mwyn esbonio amddifadedd materol aelwydydd, yn ogystal ag archwilio'r effaith mae'r newidynnau 'pwysig' hyn yn ei chael. Gan fod nifer uchel o newidynnau arwyddocaol o bosibl yn y set ddata, cafodd dull blociau ei ddefnyddio yng nghyngorau cynnar y dadansoddiad. Dewiswyd newidynnau oedd yn gysylltiedig â'r 'blociau' canlynol:

- demograffeg a hunaniaeth;

²² Defnyddir esboniadol yma gan fod y modelau atchweliad yn defnyddio'r nodweddion hyn i 'esbonio' neu ystyried amrywiol yn y model. Byddai cyfeirio at y newidynnau esboniadol hyn fel 'rhagfynegyddion' yr un mor ddilys, gan fod y model yn rhagfynegi tebygolrwydd 'llwyddiant' (yn yr achos hwn, cyfateb i fod mewn amddifadedd materol) yn seiliedig ar y nodweddion a ddisgrifir gan y newidynnau esboniadol.

- teulu, aelwyd a pherthnasau;
- iechyd a gwasanaethau iechyd;
- gwaith ac arian;
- cymdogaeth a'r ardal;
- gwasanaethau rhynggrwyd a thrafnidiaeth.

Cafodd ystadegau disgrifiadol a dadansoddiadau unamryweb eu rhedeg i archwilio'r berthynas rhwng y newidynnau hyn ac amddifadedd materol. Pan ddaethpwyd o hyd i berthynas ystadegol arwyddocaol, ar lefel uwch na'r arfer o 10%, cafodd y newidynnau eu cadw ar gyfer dadansoddiad amlamryweb. Cafodd y newidynnau oedd â pherthynas heb fod yn un ystadegol arwyddocaol ag amddifadedd materol eu heithrio o ddadansoddi pellach. Cafodd newidynnau eraill eu heithrio o'r dadansoddi am resymau sylweddol yn hytrach na rhai ystadegol. Er nad yw dadansoddi trawstoriadol o'r fath yn addas ar gyfer nodi perthynas gyfeiriol, mae'r modelau atchweliad a adeiladwyd yn awgrymu hyn. Felly, mae angen defnyddio dull gofalus ar gyfer penderfynu pa newidynnau sy'n anaddas i'w cynnwys. Lle cafodd newidynnau eu heithrio ar sail sylwedd, ond mae'r berthynas o ddiddordeb, mae'r dadansoddiad unamryweb a/neu ddisgrifiadol wedi'i nodi.

Unwaith yr oedd newidynnau yn cael eu nodi fel bod â pherthynas ystadegol arwyddocaol (ar y lefel 10%) ag amddifadedd materol, cynhaliwyd dadansoddiad amlamryweb. Ar gyfer amddifadedd materol aelwydydd, roedd y dadansoddiadau amlamryweb hyn ar ffurf atchweliad logistaidd. Cafodd nifer o newidynnau esboniadol posibl eu nodi yn y cam unamryweb, felly defnyddiwyd dull blociau ar gyfer cam cyntaf y dadansoddi amlamryweb. Cafodd pob newidyn a nodwyd fel bod yn un arwyddocaol ym mhob bloc ei gynnwys mewn model atchweliad. Defnyddiwyd dull cam wrth gam am yn ôl²³ ar gyfer nodi'r model terfynol, gyda'r lefel arwyddocâd 10% yn parhau i fod yn drothwy ar gyfer cynnwys yn y cam hwn. Cafodd newidynnau eu tynnu yn eu tro o'r model os oedd eu gwerth- p ²⁴ yn fwy na'r trothwy hwn, gyda'r newidyn â'r gwerth- p uchaf yn cael ei dynnu gyntaf. Unwaith yr oedd gan bob model blociau newidynnau gyda newidynnau ystadegol arwyddocaol, cynhaliwyd cam olaf y dadansoddi amlamryweb er mwyn nodi newidynnau pwysig. Yn y cam terfynol hwn, cyfunwyd pob model blociau er mwyn cynnal atchweliad a oedd yn cynnwys pob newidyn a nodwyd yn y cam blaenorol. Defnyddiwyd dull cam wrth gam am yn ôl tebyg i nodi'r model terfynol, gyda'r trothwy mwy arferol o 5% yn cael ei ddefnyddio i nodi newidynnau ystadegol arwyddocaol. Ar ôl i'r model terfynol hwn gael ei nodi, cafodd cryfder y perthnasau ei asesu.

²³ Roedd lefelau arwyddocâd y newidynnau yn dibynnu ar y newidynnau eraill a oedd eisoes yn y model. Er bod gan ddulliau dethol am yn ôl ac ymlaen eu diffygion, mae dethol am yn ôl yn cael ei ddewis dros ddethol ymlaen yn aml. Mae hyn o ganlyniad i natur dethol ymlaen, lle mae newidynnau pwysig yn fwy tebygol o gael eu methu gan fod newidynnau eraill yn cael eu rhoi yn y model yn gyntaf.

²⁴ Mae'r gwerth- p yn cyfeirio at lefel arwyddocâd ystadegol y newidyn. Mae gwerth- p o 0.10 (hy 10%) neu lai yn dynodi y gallwn ni fod yn 90% hyderus fod y berthynas a nodwyd o ddata'r sampl yn bodoli yn y boblogaeth a'i bod wedi digwydd o ganlyniad i hap.

Yr hyn sy'n arferol pan ddefnyddir atchweliad logistaidd yw nodi cymarebau ods²⁵ fel mesur o'r cysylltiad rhwng newidyn esboniadol a'r newidyn canlyniad. Fodd bynnag, penderfynwyd yn yr adroddiad hwn y byddai mesur o debygolrwydd rhagweledig profi amddifadedd materol yn cael ei ddefnyddio i gyfleu maint yr effaith yn haws. Ar gyfer pob newidyn arwyddocaol, nodwyd y newid yn y tebygolrwydd rhagweledig²⁶ o fod mewn amddifadedd materol. Mae'r rhain yn cael eu hadrodd fel newidiadau pwynt canran yn y tebygolrwydd o brofi amddifadedd ar bob lefel o'r newidyn esboniadol o'i gymharu â'r categori cyfeirnod, gan gadw pob newidyn arall yn y model ar ei gymedr. O ran newidynnau esboniadol deuaidd, y newid yn y tebygolrwydd rhagweledig yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy lefel. Er enghraifft, o ran rhyw, cafwyd cynnydd o 6 phwynt canran yn y tebygolrwydd rhagweledig o brofi amddifadedd materol aelwyd ar gyfer merched o'u cymharu â dynion. Gellir meddwl am hyn i'r gwrthwyneb yr un mor hawdd – mae dynion 6 phwynt canran yn llai tebygol o fod mewn amddifadedd materol na merched. Mae dehongli newidynnau â mwy nag un lefel ychydig yn fwy cymhleth. Er enghraifft, cafodd y categori cyfeirnod ar gyfer statws gweithio yr aelwyd ei osod i 'pawb yn gweithio' ac felly cafodd y pwynt canran a nodwyd ar gyfer 'rhai yn gweithio' a 'neb yn gweithio' eu cyfrifo gyda chyfeiriad at 'pawb yn gweithio'. Mae'r newid yn y tebygolrwydd rhagweledig yn caniatáu cymharu ar draws y lefelau ychwanegol hyn, fodd bynnag, gan fod modd i rywun gasglu'r gwahaniaethau. Mae cadw'r newidynnau esboniadol eraill ar eu cymedr yn caniatáu i effaith y newidyn o ddiddordeb gael ei hynysu a'i dehongli.

Cafodd yr un gweithdrefnau eu defnyddio i nodi ac archwilio newidynnau a oedd yn esbonio amddifadedd materol plant orau. Oherwydd y ffordd roedd amddifadedd yn cael ei gysyniadoli ar gyfer aelwydydd â phlant, ar dair lefel ddeuaidd (gweler Adran 2.2.3) roedd angen ymestyn y model atchweliad logistaidd. Mae'r cysyniad hwn o amddifadedd materol yn awgrymu perthynas drefnol: mae peidio â bod mewn amddifadedd materol yn llai difrifol na phrofi amddifadedd materol aelwydydd, sydd yn ei dro yn llai difrifol na phrofi amddifadedd penodol i blant. Byddai hyn yn awgrymu model atchweliad logistaidd trefnol. Fodd bynnag mae model o'r fath yn tybio ods cyfrannol rhwng lefelau'r newidyn canlyniad. Cafodd y dybiaeth hon ei phrofi a chanfuwyd ei bod yn mynd yn groes i'r data hyn. O ran sylwedd, mae hyn yn awgrymu bod y lefelau gwahanol hyn o amddifadedd yn wahanol iawn i'w gilydd. Yn ymarferol, roedd yn golygu nad oedd modd defnyddio model atchweliad logistaidd trefnol. Felly, cafodd yr atchweliad logistaidd lluosnomaidd amgen (sydd ddim yn tybio ods cyfrannol) ei ddefnyddio i archwilio'r berthynas unamryweb ac amlamryweb rhwng newidynnau esboniadol ac amddifadedd materol aelwydydd â phlant.

²⁵ Mae cymhareb ods yn nodi pa mor debygol yw hi y bydd lefel benodol o newidyn esboniadol yn profi llwyddiant o ran y newidyn canlyniad o'i gymharu â pha mor debygol yw llwyddiant os byddai'r lefel honno o newidyn esboniadol yn absennol. Er enghraifft, dychmygwch ein bod yn cynnal dadansoddiad sy'n nodi rhyw fel rhagfynegydd ystadegol arwyddocaol o brofi amddifadedd materol. Byddai'r gymhareb ods yn darparu'r gymhareb ods o brofi amddifadedd materol ar gyfer merched wedi'u cymharu â dynion. Os mai 1.5 fyddai'r gymhareb, byddai hynny'n golygu ar gyfer pob merch nad yw mewn amddifadedd, bydd 1.5 gwaith yn fwy o ferched mewn amddifadedd na nifer y dynion mewn amddifadedd o gymharu â phob dyn nad yw mewn amddifadedd. Nid yw hyn yn reddfodol nac yn syml i'w gyfleu.

²⁶ Gan ddefnyddio gorchymyn lled stata.

Mae'r canlyniadau yn cael eu dehongli mewn ffordd bron yr un fath ag y maent ar gyfer amddifadedd materol aelwydydd.

Roedd cydberthyniad rhwng nifer o'r newidynnau a gasglwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol. Er y gwnaethpwyd pob ymdrech i beidio â chynnwys eitemau â chydberthyniad uchel i ddechrau, roedd y newidynnau yn y model terfynol yn destun prawf ffurfiol ar gyfer lluosgyflinelledd. Lluosgyflinelledd (neu gyflinelledd) yw lle mae cydberthyniad uchel rhwng un neu fwy o newidynnau esboniadol mewn model atchweliad, gan fynd yn groes i un o dybiaethau allweddol atchweliad amlamryweb. Gellir asesu lluosgyflinelledd uchel gan ddefnyddio'r ystadegyn ffactor chwyddiant amrywiant (VIF). Mae'r cyngor ynghylch graddfa dderbyniol o lluosgyflinelledd yn amrywio, gyda'r canllaw ceidwadol o 2.5 yn awgrymu rheswm i bryderu, a dull cyffredinol, eang, mwy hael, sef bod unrhyw beth o dan 10 yn dderbyniol. Cafodd yr ystadegyn VIF ei gyfrifo ar gyfer y modelau terfynol gyda'r gwerthoedd ar gyfer pob newidyn o dan 5. Cymerwyd hyn fel canlyniad boddhaol, felly ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r newidynnau a oedd wedi'u cynnwys.

Yn ogystal ag asesu addasrwydd y newidynnau esboniadol a oedd wedi'u cynnwys yn y model atchweliad terfynol drwy ddehongliad ystadegol a sylweddol a phrofion lluosgyflinelledd, cafodd llwyddiant y ffit ei asesu. Gellir asesu llwyddiant y ffit mewn sawl ffordd; yn yr achos hwn, cafodd yr ystadegyn R^2 ynghyd â'r ystadegyn prawf Hosmer-Lemeshow²⁷ eu harchwilio. Yr ystadegyn R^2 yw cyfernod y mesuriad ar gyfer mwy nag un model atchweliad, ac mae'n mesur pa mor dda mae'r data'n ffitio'r model. Mae'n cael ei nodi fel canran o amrywiant y canlyniad fel yr esboniwyd gan y newidynnau sydd wedi'u cynnwys. Mewn ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, mae R^2 yn gallu ymddangos yn isel, ond o ganlyniad i natur gymhleth y canlyniadau sy'n cael eu hymchwilio, mae hyn i'w ddisgwyl. Wrth gyfrifo ystadegau R^2 , y mae llawer ohonynt wedi'u cyfrifo, nid oes modd defnyddio'r ffwythiant svy (fel y defnyddir i amcangyfrif cyfrannau). Mae hyn yn golygu nad yw'r amcangyfrifon yn ystyried natur haenedig, ac wedi'i phwysoli, y data.


O ran amddifadedd materol aelwydydd, roedd yr ystadegau R^2 bras rhwng 0.22 a 0.36, gan awgrymu bod y newidynnau esboniadol yn y model terfynol yn cyfrif am rhwng 22% a 36% o'r amrywiant mewn amddifadedd materol. Fodd bynnag, rhaid trin ystadegau R^2 yn ofalus iawn wrth ddefnyddio data arolwg wedi'u pwysoli.

Mesur amgen ar gyfer llwyddiant y ffit ar gyfer data deuaidd yw'r prawf Hosmer-Lemeshow. Mae'r prawf hwn yn cymharu tebygolrwydd rhagweledig achosion â'r data dan sylw. Mae'r prawf yn dychwelyd ystadegyn sy'n asesu diffyg ffit y model i'r data. Yn yr achos hwn, nid oedd y prawf yn nodi unrhyw ddiffyg o ran ffit yn y model terfynol, hy roedd y model wedi rhagfynegi aelodaeth o'r grŵp amddifadedd materol yn ddigonol ($\chi^2(9) = 9.97$, $p > 0.05$).

²⁷ Hosmer, D. W., & Lemeshow, S., (2000). *Applied Logistic Regression*. 2nd arg. Efrog Newydd: Wiley.

Mae Ffigur 2.1 yn gynrychioliad graffigol²⁸ o'r gymhariaeth rhwng tebygolrwydd rhagweledig â chyfartaledd newidiol achosion sydd â thebygolrwydd o un. Yn y bôn, po agosaf mae'r llinell goch wedi'i mapio ar yr un werdd, y gorau yw ffit y model. Mae Ffigur 2.1 yn dynodi bod y model terfynol yn llwyddo i ragfynegi'n gywir a yw aelwyd mewn amddifadedd materol ai peidio.

Ffigur 2.1: Llwyddiant y ffit ar gyfer amddifadedd materol aelwydydd



Cafodd gweithdrefn debyg ei defnyddio i archwilio llwyddiant y ffit yn y model atchweliad ar gyfer aelwydydd â phlant. Fel yr uchod, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfernodau'r mesuriad ar gyfer data arolwg. Fodd bynnag, fel canllaw cyffredinol, roedd gan y model atchweliad ar gyfer aelwydydd â phlant ystadegau R^2 cysylltiedig rhwng 0.15 a 0.34. Gellir diffinio hyn fel bod y model yn esbonio rhwng 15% a 35% o'r amrywiant mewn amddifadedd materol. Er ei bod yn ystod eang, gydag isafswm eithaf isel, roedd yn foddhaol.

Mae atchweliad logistaidd lluosnomaidd yn mynnu bod pob lefel o'r canlyniad yn cael ei rhagfynegi gan ddefnyddio'r un newidynnau esboniadol. O reidrwydd, bydd rhai newidynnau esboniadol yn bwysicach i rai canlyniadau nag eraill (ac felly'n gallu rhagfynegi rhai canlyniadau'n well nag eraill), gan arwain at bŵer llai o ran esboniad yr amrywiant yn y model cyffredinol. Gellir gweld yr anghysondeb hwn yn y canlyniadau a gyflwynir yn Adran 5. Er y gellir ei ystyried yn gyfyngiad, mewn gwirionedd fe allai helpu i ddeall y gwahaniaethau rhwng gwahanol lefelau'r canlyniad.


²⁸ Gan ddilyn yr enghraifft a roddir yn Long & Freese (2006).

3 Dangosyddion amddifadedd materol


3.1 Dangosyddion unigol

Roedd yr ymatebwyr yn cael eu hystyried fel bod mewn amddifadedd materol o ran eitem os oeddent yn ymateb yr hoffent yr eitem, ond nid oeddent yn gallu ei fforddio. Gan ystyried y cwestiynau amddifadedd materol aelwydydd, dywedodd 48% o'r ymatebwyr eu bod yn methu un eitem o leiaf. O'r rheini, roedd dros hanner yn methu un neu ddwy o'r eitemau'n unig (32% a 21% yn y drefn honno). Dywedodd llai na 5% o'r sampl eu bod yn methu 7 eitem neu fwy. Mae Ffigur 3.1 a Ffigur 3.2 yn rhoi manylion llawnach am nifer yr eitemau sydd ar goll o aelwydydd.

Ffigur 3.1: Nifer yr eitemau sydd ar goll, yn ôl cyfanswm yr aelwydydd




Ffigur 3.2: Nifer yr eitemau sydd ar goll, yn ôl aelwydydd sy'n methu un eitem o leiaf



Mae Ffigur 3.3 yn dangos cyfrannau'r ymatebion ar gyfer pob eitem amddifadedd materol aelwydydd. Fel y gwelir, yr eitem fwyaf cyffredin o ran yr hyn nad oedd ymatebwyr yn gallu ei fforddio oedd gwyliau i ffwrdd o gartref (heb fod yn aros gyda pherthnasau). Dywedodd bron i chwarter yr ymatebwyr nad oeddent yn gallu fforddio'r math hwn o wyliau, gyda nifer tebyg yn dweud nad oeddent yn gallu fforddio cynilo'n rheolaidd bob mis. Mae'r ddwy eitem hyn yn amlygu agwedd ddiddorol ar y math hwn o ddadansoddi, gyda'r ymatebion yn awgrymu gwahanol lefelau o angenrheidrwydd canfyddedig. Mae gwyliau i ffwrdd o gartref yn cael ei ystyried yn llai hanfodol o lawer, gyda 15% yn dweud nad oedd angen hynny arnynt, o'i gymharu â chynilon rheolaidd, gydag 8% yn dweud nad oedd angen hynny arnynt. Cafodd yr agwedd hon ar batrwm yr ymatebion ei hystyried wrth gyfrifo'r sgôr amddifadedd materol cyffredinol.²⁹


Ffigur 3.3: Ymatebion i fesurau amddifadedd materol aelwydydd



²⁹ Er ei bod yn rhesymegol tybio bod y lefel o amddifadedd materol yn cynyddu fel y mae nifer yr eitemau mae aelwyd yn eu methu yn cynyddu, ni roddir yr un pwysoliad i bob eitem. Os bydd ymatebydd heb eitem y mae ymatebwyr eraill yn gallu ei fforddio ar y cyfan, mae'r eitem hon yn cael pwysoliad uwch wrth gyfrifo amddifadedd. Mae mwy o fanylion am sut cafodd y sgoriau amddifadedd materol cyffredinol eu cyfrifo ar gael yn Adran 2.2.1.

Mae Ffigur 3.4 yn darparu cyfran yr ymatebion i bob cwestiwn amddifadedd materol penodol i blant. Mae'n anoddach cymharu'r mesurau hyn yn uniongyrchol na'r eitemau amddifadedd materol aelwydydd, gan fod gwahanol eitemau yn benodol i wahanol oeddrannau plant. Cafodd hyn ei ddatrys i raddau drwy ofyn rhai cwestiynau i'r cyfranogwyr a oedd eisoes wedi nodi bod ganddynt blant y *gallai'r* cwestiwn fod yn berthnasol iddynt, a nhw'n unig. Fodd bynnag, efallai mai'r rheswm dros y cyfrannau uchel o ymatebion 'ddim angen' yw problemau ynghylch pa mor briodol o ran oedran yw'r eitemau. Mae'r broblem hon, yn ogystal â'r berthynas rhwng amddifadedd materol aelwydydd ac amddifadedd materol plant, yn cael eu harchwilio'n fanylach yn Adran 2.2.2. Yr hyn sy'n drawiadol am Ffigur 3.4 yw'r lefelau isel a nodwyd o ran yr amddifadedd sy'n cael ei brofi gan blant ar gyfer unrhyw o'r eitemau. Ar wahân i'r eitem ystafell wely ar wahân, sydd â lefel amddifadedd o 9%, roedd gan bob eitem lefelau amddifadedd o lai na 5% (gweler Tabl 3.1).

Ffigur 3.4: Ymatebion i fesurau amddifadedd materol plant



Tabl 3.1: Amddifadedd o ran eitemau penodol i blant yn ôl pob aelwyd â phlant

Eitem	Ddim yn gallu fforddio %
Digon o ystafelloedd gwely	9.3
Gweithgaredd rheolaidd	3.6
Hobi / gweithgaredd hamdden	2.4
Grŵp babanod / meithrinfa / cylch chwarae	1.8
Teithiau ysgol	1.7
Offer hamdden	1.7
Ffrindiau'n dod i de bob pythefnos	1.7
Ffrwythau / llysiau ffres bob dydd	1.4
Dathliadau	0.8
Côt gynnes i'r gaeaf	0.7

3.2 Perthynas rhwng dangosyddion

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd i ymatebwyr, fel y disgrifiwyd yn adran 2.1.2, wedi'u dylunio i fesur y duedd sylfaenol o fod mewn amddifadedd materol. O ganlyniad, mae'n bosibl archwilio'r berthynas rhwng y dangosyddion amddifadedd materol gan ddefnyddio dadansoddiadau cydberthyniad cudd.³⁰ Mae'r math hwn o ddadansoddiad yn cymryd pob newidyn, ac yn cyfrifo'r berthynas rhyngddo â phob newidyn arall yn y dadansoddiad, gan ddychwelyd matrices canlyniadau. Mae Tabl 3.2,

Tabl 3.3, a Tabl 3.4 yn dangos canlyniadau'r dadansoddiadau cydberthynol hyn. Mae Tabl 3.2 yn dangos y berthynas rhwng yr eitemau amddifadedd materol aelwydydd. Er nad yw hyn yn annisgwyl efallai, mae'r berthynas rhwng yr holl ddangosyddion hyn yn un bositif, gan olygu bod y rheini sydd heb eitem A hefyd yn fwy tebygol na pheidio o fod heb eitem B. Mae rhai o'r perthnasau cryfaf rhwng yr eitemau hynny sy'n gysylltiedig â chynnal y cartref, hy rhwng anallu i fforddio atgyweirio dodrefn a newid nwyddau trydanol mawr, rhwng anallu i fforddio atgyweirio dodrefn ac anallu i gadw'r cartref wedi'i addurno'n dda, a rhwng anallu i atgyweirio nwyddau trydanol mawr ac atgyweirio dodrefn.

Tabl 3.2: Cydberthyniadau cudd rhwng eitemau amddifadedd materol aelwydydd

	Gwyliau	Décor	Yswirio	Arian	Dodrefn	Trwsio	£ Hunan	Gwresogi	Biliau
Gwyliau	1								
Décor	0.63	1							
Yswirio	0.68	0.64	1						
Arian	0.68	0.64	0.68	1					
Dodrefn	0.66	0.74	0.64	0.74	1				
Trwsio	0.65	0.70	0.65	0.70	0.87	1			
£ Hunan	0.70	0.67	0.67	0.75	0.72	0.71	1		
Gwresogi	0.48	0.60	0.48	0.52	0.53	0.52	0.52	1	
Biliau	0.60	0.61	0.63	0.67	0.62	0.63	0.68	0.51	1
0.40-0.69	Perthynas gymedrol								
0.90-0.99	Perthynas gref								

³⁰ Mae'r matrices cydberthyniad hyn yn cael eu llunio cyn dadansoddiadau ffactor fel arfer

Mae Tabl 3.3 yn darparu canlyniadau'r cydberthyniadau cudd rhwng yr eitemau amddifadedd materol plant. Cafodd yr eitemau cwestiwn eu cymryd o'r Arolwg o Adnoddau Teulu gan gymryd eu bod yn mesur amddifadedd materol gwaelodol aelwydydd. Mae'r matrices canlyniadol yn gwahaniaethu oddi wrth yr un ar gyfer amddifadedd materol aelwydydd (Tabl 3.2) o ran bod darlun llai clir o lawer ynghylch y berthynas rhwng eitemau amddifadedd materol. Yn gyffredinol, mae'r berthynas rhwng y newidynnau penodol i blant yn wannach na'r rheini a ganfuwyd gyda'r mesurau aelwydydd. Mewn gwirionedd, mae'r eitem sy'n mesur a oes digon o ystafelloedd gwely i bob plentyn o ryw gwahanol dros 10 oed yn dangos perthynas wan neu wan iawn â phob eitem arall, heblaw'r eitem cael ffrindiau draw am de bob pythefnos. Mae'r cydberthyniad rhwng y ddwy eitem hyn yn weddol fach ac yn negyddol. Mae natur negyddol y berthynas yn awgrymu bod y rheini sy'n dweud nad ydynt yn gallu fforddio'r nifer priodol o ystafelloedd gwely yn fwy tebygol o allu fforddio cael ffrindiau eu plentyn/plant i de, ac i'r gwrthwyneb. Mae hyn, ynghyd â'r perthnasau negyddol eraill a ganfuwyd yn y matrices a chyffredinolrwydd y perthnasau gwan neu wan iawn, yn awgrymu bod posibilrwydd o batrymau amrywiol o amddifadedd yn y sampl. Gan gyfeirio at y drafodaeth yn adran 2.2.2, oherwydd fod y mesurau amddifadedd materol plant i weld yn targedu is-setiau gwahanol o blant, gellid dadlau nad ydynt yn cynrychioli un dimensiwn gwaelodol o amddifadedd materol plant (yn wahanol i'r mesurau EU SILC fel y disgrifir yn Whelan & Maitre, 2012³¹).

Tabl 3.3: Cydberthyniadau cudd rhwng eitemau amddifadedd materol penodol i blant

	Côt	Llysi au	Ystafell wely	Offer	Dathlu	Gweith- garedd	Hamdd en	Te	Cylch chwarae	Taith
Côt	1									
Llyisiau	0.60	1								
Ystafell wely	0.12	0.23	1							
Offer	0.59	0.46	0.25	1						
Dathlu	0.77	0.62	0.08	0.55	1					
Gweith- garedd	0.51	0.47	0.07	0.60	0.45	1				
Hamdden	0.49	0.37	0.19	0.62	0.51	0.81	1			
Te	0.36	0.28	-0.54	0.44	0.35	0.53	0.50	1		
Cylch chwarae	-0.39	-0.43	0.18	0.14	-0.47	0.24	0.27	0.20	1	
Taith	0.46	0.29	0.17	0.56	0.41	0.58	0.58	0.48	0.37	1
0.01-0.19	Perthynas wan iawn									
0.20-0.39	Perthynas wan									
0.40-0.69	Perthynas gymedrol									
0.70-0.89	Perthynas gref									

³¹ Whelan, C. T. and B. Maître (2012), 'Identifying childhood deprivation: How well do national indicators of poverty and social exclusion in Ireland perform?', *Economic and Social Review*, 43: 2, tt. 251 - 272.

Mae'r tabl olaf yn yr is-adran hon (Tabl 3.4) yn dangos y cydberthyniadau cudd rhwng dangosyddion amddifadedd aelwydydd (ar hyd y brig) a dangosyddion penodol i blant (ar hyd yr ochr). Mae'r tabl yn dangos bod y rhan fwyaf o'r perthnasau rhwng y setiau penodol hyn o ddangosyddion yn gymedrol ac yn bositif.

Tabl 3.4: Cydberthyniadau cudd rhwng eitemau amddifadedd materol aelwydydd a phlant

	Gwyliau	Décor	Yswirio	Arian	Dodrefn	Trwsio	£ Hunan	Gwresogi	Biliau
Côt	0.42	0.55	0.44	0.49	0.46	0.51	0.38	0.54	0.48
Llysiau	0.27	0.37	0.35	0.40	0.38	0.44	0.40	0.39	0.42
Ystafell wely	0.37	0.26	0.36	0.42	0.32	0.38	0.37	0.30	0.34
Offer	0.47	0.62	0.48	0.53	0.48	0.42	0.59	0.60	0.50
Dathlu	0.35	0.31	0.39	0.37	0.37	0.40	0.31	0.37	0.40
Gweithgaredd	0.44	0.48	0.54	0.45	0.50	0.51	0.55	0.51	0.55
Hamdden	0.34	0.49	0.49	0.56	0.47	0.48	0.57	0.36	0.53
Te	0.28	0.48	0.32	0.42	0.41	0.37	0.45	0.29	0.37
Cylch chwarae	0.27	0.31	0.28	0.32	0.26	0.19	0.41	0.17	0.23
Taith	0.37	0.46	0.41	0.55	0.37	0.34	0.50	0.47	0.48
0.01-0.19	Perthynas wan iawn								
0.20-0.39	Perthynas wan								
0.40-0.69	Perthynas gymedrol								

Po gryfaf yw'r berthynas, hy yr agosaf i 1 yw cyfernod y cydberthyniad, y mwyaf yr arwydd fod y ddwy eitem yn mesur yr un peth. Mae'r perthnasau cymedrol rhwng yr eitemau yn y matrices uchod yn awgrymu er bod y dangosyddion plant ac oedolion yn mesur rhywbeth tebyg, maent (fel y bwriedir) yn mesur gwahanol elfennau, neu fathau, o amddifadedd materol.

4 Amddifadedd materol aelwydydd

4.1 Nodweddion yr ymatebwyr

Er bod y rhan fwyaf o'r cwestiynau amddifadedd materol yn cael eu gofyn yng nghyswllt yr aelwyd fel uned gyfan, mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried demograffeg a nodweddion ymatebwyr penodol. Nid yn unig mae o leiaf un o'r cwestiynau yn gofyn yn benodol am brofiad yr unigolyn o amddifadedd, mae hefyd yn rhesymol tybio y gallai nodweddion yr unigolyn effeithio ar ei ateb³².

Roedd cysylltiadau rhwng amddifadedd materol a nodweddion eraill yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar ei gilydd i ddechrau. Yna, archwiliwyd y berthynas rhwng amddifadedd materol a phob nodwedd o'r newydd ar ôl rheoli newidynnau eraill. Mae'r nodweddion diddorol ac arwyddocaol wedi'u disgrifio isod.

4.1.1 Oedran


Canfuwyd bod perthynas arwyddocaol rhwng oedran yr ymatebydd â phrofiad o amddifadedd materol. Cafodd oedran ei drin mewn categorïau, gydag oedran yr ymatebydd yn cael ei roi mewn un o bum grŵp. Roedd hyn yn ddull rhesymol i'w ddefnyddio o ystyried y ffin yn y data o ran oedran ymddeol. Ystyriwyd ei bod yn rhesymol ystyried pobl ifanc, pobl ganol oed a phobl hŷn yn grwpiau penodol. Ar ben hynny, teimlwyd ei bod yn debygol fod profiad pobl ifanc a phobl hŷn o amddifadedd materol yn wahanol i'w gilydd, yn ogystal â bod yn wahanol i'r rheini yn y categorïau oedran canol (hy bod perthynas aflinol rhwng oedran ac amddifadedd materol). Mae Ffigur 4.1 yn dangos canran y rheini ym mhob grŵp oedran sy'n profi amddifadedd materol. Mae bariau gwall wedi'u dangos ar frig pob grŵp oedran i ddangos yr ystod y mae'r amcangyfrif poblogaeth yn debygol o ddisgyn ynddi. Mae'r bariau gwall sy'n gorgyffwrdd, fel y rheini ar gyfer y grwpiau oedran 16-24 a 45-64, yn awgrymu bod y gwahaniaeth rydym wedi sylwi arno yn y data hyn yn annhebygol o fodoli yn y boblogaeth ehangach. I'r gwrthwyneb, gallwn fod yn hyderus fod yr amcangyfrifon lle nad yw'r bariau gwall yn gorgyffwrdd yn cynrychioli gwahaniaeth gwir, fel y rheini ar gyfer y grwpiau oedran 25-44 a 45-64.

Mae Ffigur 4.1 yn dangos bod cyfran uwch o lawer o oedolion o oedran gweithio yn profi amddifadedd na'r rheini o oedran ymddeol. Er enghraifft, ymysg y rhai dros 75 oed, dim ond 7% a nododd eu bod mewn amddifadedd materol. Mae dehongliad sylweddol a methodolegol o'r ffigur hwn. O ran sylwedd, efallai fod y rheini sydd wedi byw heibio 74 oed ac sydd yn dal yn gallu byw gartref yn dueddol o fod yn fwy cyfoethog. Ar y llaw arall, efallai nad yw'r cwestiynau a ofynnwyd yn ymwneud â sut mae'r cenedlaethau hŷn yn profi amddifadedd. Er y bydd y dadansoddiad hwn yn parhau gyda'r unigolion hŷn yma wedi'u cynnwys, mae datblygiadau mwy diweddar yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu a'r Arolwg Cenedlaethol wedi caniatáu i'r pwynt diwethaf gael ei godi yma drwy gynnwys

³² Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod pensiynwyr, er enghraifft, yn ystyried llai o'r eitemau amddifadedd materol hyn yn hanfodol nag y mae oedolion o oedran gweithio.


dangosyddion ar wahân i aelwydydd pensiynwyr³³.

Ffigur 4.1: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl grŵp oedran



Ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill³⁴, roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng oedran ac amddifadedd materol o hyd. Mae Ffigur 4.2 yn dangos effaith oedran ar y tebygolrwydd o brofi amddifadedd materol, gan reoli ar gyfer ffactorau eraill. Mae pob grŵp yn cael ei gymharu â'r categori cyfeirnod, sef 16 i 24 oed. Roedd yn ymddangos bod gwahaniaeth rhwng y rheini o dan oedran ymddeoliad a dros yr oedran hwnnw. Roedd y rheini o dan oedran ymddeoliad yn fwy tebygol o brofi amddifadedd materol, gyda'r rheini rhwng 25 a 44 oed yn fwy tebygol o lawer o brofi amddifadedd (8 pwynt canran yn fwy tebygol). I'r gwrthwyneb, roedd y rheini sy'n 75 oed neu'n hŷn yn 10 pwynt canran yn llai tebygol o brofi amddifadedd. Er nad oedd y categorïau oedran 45-64 oed a 65-74 oed yn arwyddocaol o wahanol yn ystadegol i'r categori oedran ieuaf, roeddent hefyd yn dilyn y patrwm a ddisgrifiwyd gyda'r grŵp oedran iau yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd, a'r grŵp hŷn yn llai tebygol.

Ffigur 4.2: Effaith oedran ar amddifadedd materol aelwydydd



³³ McKay, S. (2008). *Measuring material deprivation among older people: Methodological study to revise the Family Resources Survey questions*. Yr Adran Gwaith a Phensiynau (papur gwaith 54). O 2016-17 ymlaen, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys set ar wahân o gwestiynau i bensiynwyr (yn deillio o'r Arolwg o Adnoddau Teulu), sydd wedi'u dylunio i ganfod amddifadedd materol ymysg y grŵp hwnnw yn well.


³⁴ I weld rhestr lawn o'r newidynnau y rheolwyd ar eu cyfer yn yr atchweliad logistaidd amlamryweb, gweler 4.6 Crynodeb.

Mae'r gwahaniaeth rhwng grwpiau oedran iau a hŷn yn cael ei amlygu ymhellach wrth edrych ar gyfansoddiad aelwydydd. Canfuwyd bod nifer amlwg llai o aelwydydd sy'n cynnwys oedolion o oedran pensiwn yn unig mewn amddifadedd (9%), o gymharu â'r rheini sy'n cynnwys oedolion o oedran gweithio (25%). Yn wir, ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill, roedd y berthynas rhwng aelwydydd wedi ymddeol ac amddifadedd materol yn dal yn ystadegol arwyddocaol, gyda'r tebygolrwydd o aelwyd wedi ymddeol³⁵ yn profi amddifadedd materol 9 pwynt canran yn llai nag aelwydydd sy'n cynnwys oedolion o oedran gweithio.

4.1.2 Rhyw

Nododd chwarter y merched (25%) eu bod yn profi amddifadedd materol, o gymharu â llai na un dyn o bob pump (18%), fel y gwelir yn Ffigur 4.3. Roedd y gwahaniaeth hwn yn dal yn arwyddocaol ar ôl rheoli ar gyfer newidynnau eraill, gyda thebygolrwydd merched o brofi amddifadedd 6 phwynt canran yn uwch na dynion.

Ffigur 4.3: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl rhyw



4.1.3 Iechyd

Gofynnwyd sawl cwestiwn i'r ymatebwyr am eu statws iechyd. Roedd gan ddau o'r cwestiynau hyn, un am gyflwr eu hiechyd ac un arall am a oeddent wedi dioddef anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor, gysylltiad arwyddocaol ag amddifadedd materol. Roedd un o bob pump (20%) o'r rheini a nododd iechyd gweddol/da yn cael eu hystyried fel bod mewn amddifadedd materol, o gymharu â 39% o'r rheini a nododd bod eu hiechyd yn wael. Roedd y cysylltiad hwn yn dal yn ystadegol arwyddocaol ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill, gyda'r rheini a nododd iechyd gwael 5 pwynt canran yn fwy tebygol nag eraill i brofi amddifadedd materol.

Cafwyd canlyniadau tebyg ar gyfer y rheini a nododd bod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor. Roedd 31% o'r rheini a nododd rhyw fath o glefyd neu salwch cyfyngus hirdymor hefyd mewn amddifadedd materol. Roedd hyn yn dal yn arwyddocaol ar ôl rheoli


³⁵ Drwy gydol y dadansoddiad hwn, mae 'aelwyd wedi ymddeol' yn cyfeirio at aelwydydd sy'n cynnwys oedolion o oedran pensiwn yn unig.

ar gyfer newidynnau eraill (gan gynnwys statws iechyd hunan-gofnodedig). Roedd y rheini â salwch cyfyngus hirdymor 8 pwynt canran yn fwy tebygol o brofi amddifadedd materol na'r rheini heb y problem iechyd hon.

4.1.4 Cymwysterau

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng lefel o gymhwyster ag amddifadedd materol, cyn ac ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill. Mae Ffigur 4.4 yn darparu cyfrannau a chyfyngau hyder ar gyfer pob lefel o gymhwyster, fel y maent wedi'u categorïddio gan ddefnyddio'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol³⁶. Efallai nad yw'n syndod fod y rheini â'r lefelau uchaf o gymwysterau yn profi'r cyfraddau lleiaf o amddifadedd materol (lefelau 4-8 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol: 12%); ond roedd y rheini heb unrhyw gymwysterau neu'r lefelau isaf o gymwysterau yn profi cyfraddau uwch o lawer o amddifadedd (dim cymwysterau: 32%; llai na lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol: 31%).


Ffigur 4.4: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl lefel cymhwyster



Ar ôl rheoli ar gyfer newidynnau eraill, roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng lefel y cymhwyster uchaf a nodwyd gan yr ymatebwyr ac amddifadedd materol o hyd. Mae Ffigur 4.4 yn dangos effaith cymhwyster addysgol uchaf yr ymatebwyr a pha mor debygol ydynt o brofi amddifadedd materol. Fel y gwelir yn y ffigur, wrth i lefel y cymhwyster ddisgyn, mae'r tebygolrwydd o amddifadedd materol yn codi. Mae'n bwysig cofio bod yr enghreifftiau hyn o debygolrwydd yn rheoli ar gyfer newidynnau eraill yn y model, megis statws cyflogaeth ac oedran, ac felly'n ceisio ynysu dylanwad y newidyn penodol hwn ar amddifadedd materol.

³⁶ Mae cymwysterau uchaf yr ymatebwyr wedi'u grwpio yn ôl lefelau'r [Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol](#), lle mae lefel 1 yw'r lefel isaf o gymwysterau ac mae lefel 8 yn cyfateb i radd doethuriaeth neu gymhwyster cyfwerth.

Ffigur 4.5: Effaith cymhwyster addysgol uchaf ar amddifadedd materol aelwydydd




4.2 Perthynas deuluol ac aelwydydd

4.2.1 Statws priodasol

Mae cysylltiad arwyddocaol rhwng statws priodasol ac amddifadedd materol. Roedd cyfran debyg o'r rheini sy'n weddw mewn amddifadedd materol (15%) o gymharu â'r rheini sydd wedi priodi (14%). Ar y llaw arall, roedd cyfran yr ymatebwyr sengl a nododd amddifadedd materol ddwywaith yn fwy na chyfran yr ymatebwyr priod (24% o gymharu â 12%). Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi ysgaru yn fwy tebygol byth o fod mewn amddifadedd materol (38%), fel y dangosir yn Ffigur 4.6.

Ffigur 4.6: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl statws priodasol




Roedd y canlyniadau hyn yn dal yn arwyddocaol ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau eraill. Mae unigolion wedi ysgaru 12 pwynt canran yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd o gymharu ag unigolion priod. Mae hyn yn sylweddol ac ystadegol arwyddocaol. Er bod

gwahanol gyfrannau o bobl sengl a phobl weddw mewn amddifadedd materol, ar ôl ystyried nodweddion eraill, roedd gan y ddau grŵp debygolrwydd tebyg, uwch o brofi amddifadedd materol o gymharu â phobl briod.

Mae hon yn enghraifft dda i amlygu pwysigrwydd defnyddio ystadegau casgliadol sy'n gallu ystyried dylanwad newidynnau eraill ar y cysylltiad rhwng newidynnau o ddiddordeb (yn yr achos hwn statws priodasol ac amddifadedd materol). Efallai na fydd casgliadau ystadegau disgrifiadol yn unig yn mynd i'r afael â natur gymhleth y berthynas rhwng newidynnau. Mae ymchwil gymdeithasegol o'r math hwn yn gymhleth o raid, ac felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol o gynifer o newidynnau dryslyd posibl, a'u hystyried, wrth geisio ynysu effaith unrhyw ffactor unigol.

Mae canlyniadau'r dadansoddiad casgliadol a gynhaliwyd, wedi'u nodi fel newid pwynt canran, yn ystyried yr effaith gallai ffactorau eraill eu cael ar y berthynas rhwng y newidynnau o ddiddordeb ac maent, i ryw raddau, yn ceisio ynysu'r cysylltiad hwn. Mae hyn yn gallu arwain at y sefyllfa bresennol, lle mae'r ystadegau disgrifiadol (Ffigur 4.6) i weld yn adrodd stori wahanol i ganlyniadau'r atchweliad logistaidd (Ffigur 4.7). Gallai'r ystadegau disgrifiadol yn yr enghraifft hon ein harwain at y casgliad fod gan bobl sengl a phobl weddw ag amddifadedd materol o gymharu â'r grŵp priod. Mae'n ymddangos bod pobl sengl yn fwy tebygol o brofi amddifadedd materol na phobl weddw. Mae'r ystadegau casgliadol yn herio'r casgliad cychwynnol hwn. Maent yn datgelu bod gan unigolion sengl ac unigolion gweddwr, ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill, debygolrwydd tebyg iawn o brofi amddifadedd materol o gymharu â'r rheini sy'n briod. Ar ben hynny, nid yw eu tebygolrwydd mor wahanol â hynny i debygolrwydd cyplau priod. Yn y grŵp wedi ysgaru y gwelir yr effaith sylweddol fwy.


Ffigur 4.7: Effaith statws priodasol ar amddifadedd materol aelwydydd



4.2.2 Nifer y plant

Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng nifer y plant yn yr aelwyd a pha un ai a oedd yr aelwyd honno'n profi amddifadedd materol ai peidio. Mae Ffigur 4.8 yn dangos cyfrannau amrywiol o aelwydydd â dim plant, un plentyn, dau blentyn, a thri neu fwy o blant. Fel y gwelir, mae cysylltiad rhwng cael unrhyw nifer o blant yn yr aelwyd a chynnydd sylweddol yn y tebygolrwydd o amddifadedd materol, o gymharu ag aelwydydd heb blant. Er mai ychydig o wahaniaeth sydd o ran bod ag un neu ddau o blant, mae'r aelwydydd hynny â thri neu fwy o blant yn fwy tebygol o brofi amddifadedd materol na'r rheini sydd â llai o blant na hynny. Mae hyn yn cael ei gadarnhau pan ystyrir nodweddion eraill, gyda phob plentyn ychwanegol³⁷ yn golygu cynnydd o tua 3 phwynt canran mewn profi amddifadedd materol.

Ffigur 4.8: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl nifer y plant



4.2.3 Aelwyd un rhiant

Yn rhannol gysylltiedig â'r ddwy is-adran flaenorol, ond yn cael effaith benodol ei hun,³⁸ roedd cysylltiad rhwng bod yn rhiant sengl a chynnydd yn y tebygolrwydd o amddifadedd materol. Er bod cysylltiad arwyddocaol rhwng nifer yr oedolion yn yr aelwyd ac amddifadedd materol (gydag aelwydydd un rhiant yn fwyaf tebygol o brofi amddifadedd (31%)), nid oedd y nodwedd hon yn arwyddocaol ar ôl ystyried y bobl sengl hynny sydd â phlant yn y cartref. Gan reoli ar gyfer newidynnau eraill, roedd effaith bod yn aelwyd un rhiant ar brofi amddifadedd materol yn dal yn ystadegol arwyddocaol. Roedd aelwydydd

³⁷ Mae effaith ymylol mesurau parhaus o'r fath yn mesur y *gyfradd newid di-oed*, sy'n darparu amcangyfrif da o'r newid mewn amddifadedd materol ar gyfer newid un uned yn nifer y plant.


³⁸ Ddim i'r raddfa eu bod yn arddangos lluosgyflinelledd. Mae lluosgyflinelledd yn cyfeirio at achosion lle mae cydberthyniad uchel rhwng dau neu fwy o newidynnau rhagfynegi yn y dadansoddiad atchweliad. Mae hyn yn gallu achosi problem o ran sefydlogrwydd a dehongliad yr amcangyfrifon a gynhyrchir. Mae'r modelau drwy gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu profi, ac ni chafwyd bod lluosgyflinelledd yn broblem (pob VIF < 5).

un rhiant 5 pwynt canran yn fwy tebygol na mathau eraill o aelwyd o brofi amddifadedd materol.³⁹

4.2.4 Daliadaeth tai

Mae cysylltiad arwyddocaol rhwng statws deiliadaeth tai yr aelwyd ac amddifadedd materol hefyd. Mae Ffigur 4.9 yn dangos bod y rheini sy'n berchen ar eu cartref eu hunain yn fwy tebygol o lawer o brofi amddifadedd materol (12%) na'r rheini sy'n rhentu'n breifat (35%) neu'n byw mewn tai cymdeithasol (51%).

Ffigur 4.9: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl daliadaeth tai⁴⁰




Ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion eraill, mae'r gwahaniaeth hwn rhwng perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n rhentu yn dal yn ystadegol arwyddocaol (Ffigur 4.10). Roedd aelwydydd sy'n rhentu dros 10 pwynt canran yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd. Mae'n werth nodi bod y gwahaniaeth mawr ymddangosiadol rhwng y rheini yn y sector rhent preifat a thai cymdeithasol yn lleihau pan ystyrir nodweddion eraill yr ymatebwyr. Roedd cynnydd o 14 pwynt canran yn nhebygolrwydd y rheini sy'n rhentu gan unigolion preifat, ac mae tebygolrwydd y rheini sy'n rhentu gan gymdeithas dai neu landlordiaid cyngor (hy y rheini mewn tai cymdeithasol) 4 pwynt canran yn uwch eto – cynnydd o 18 pwynt. Mae'n werth nodi'r gwahaniaeth ymddangosiadol rhwng yr ystadegau disgrifiadol a chasgliadol yma. Er bod newid mawr mewn pwyntiau canran yng nghyfrannau'r rheini sy'n profi amddifadedd materol yn y grwpiau tai cymdeithasol a rhentu preifat (Ffigur 4.9), mae'r gwahaniaeth ymddangosiadol hwn yn lleihau'n sylweddol pan reolir ar gyfer ffactorau eraill ac rydym yn archwilio'r newid mewn tebygolrwydd drwy ystadegau casgliadol (Ffigur 4.10).

³⁹ Mae'n bwysig nodi bod aelwydydd un rhiant yn cael eu cymharu â phob aelwyd arall yma, y rheini gyda phlant a heb blant. Mae Adran 5.2 yn archwilio effaith aelwydydd un rhiant wrth ymchwilio'n unig i'r aelwydydd hynny â phlant.

⁴⁰ Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r ffigurau Arolwg Cenedlaethol sydd wedi'u cyhoeddi ar StatsCymru, o ganlyniad i'r dull gwahanol ar gyfer cyfrifo amddifadedd a ddefnyddir yma.

Ffigur 4.10: Effaith daliadaeth tai ar amddifadedd materol aelwyd




4.3 Cyflogaeth a chyllid

4.3.1 Lwfans

Er na wnaeth yr Arolwg Cenedlaethol gasglu gwybodaeth am incwm ymatebwyr yn uniongyrchol yn 2014-15, roedd nifer o gwestiynau yn yr arolwg yn ymwneud â statws economaidd yr unigolyn a'r aelwyd. O ran yr unigolyn, sefydlwyd ei statws economaidd presennol. Dosbarthwyd statws economaidd fel cyflogedig, di-waith, neu'n economaidd anweithgar (y rhai nad ydynt yn chwilio am waith). Mae Ffigur 4.11 yn dangos y gwahaniaeth clir rhwng y tri grŵp, yn enwedig rhwng y rhai hynny mewn cyflogaeth a'r rhai a ddosbarthwyd fel rhai di-waith.


Ffigur 4.11: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl statws economaidd cyfredol



Nid oedd y berthynas hon rhwng statws cyflogaeth unigol ac amddifadedd materol yn parhau'n arwyddocaol unwaith yr ystyriwyd nodweddion eraill. Yn hytrach, ymddengys mai statws gwaith yr aelwyd yn fwy eang sy'n effeithio ar a yw'r aelwyd yn profi amddifadedd materol. Mae

Ffigur 4.12 yn dangos cyfrannau'r amddifadedd materol ar gyfer aelwydydd sydd â statws gwaith gwahanol.

Ffigur 4.12: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl statws gweithio'r aelwyd⁴¹




Fel y gwelir, mae'r aelwydydd hynny lle mae pawb yn gweithio yn llai tebygol o fod yn dioddef amddifadedd materol na'r rhai lle mae rhai pobl yn unig yn gweithio, sydd yn eu tro yn llai tebygol o brofi amddifadedd na'r aelwydydd hynny lle nad oes neb yn gweithio. Mae'n ymddangos bod aelwydydd sy'n cynnwys rhai nad ydynt o oedran gweithio (y mwyafrif yn cynnwys aelwydydd sydd wedi ymddeol) ar lefel is o amddifadedd materol na'r rhai lle mae pob unigolyn yn gweithio, ond nid yw'r effaith hon yn arwyddocaol yn ystadegol.

Pan ystyrir nodweddion eraill, y mesur aelwyd hwn o statws gwaith yn hytrach na'r mesur unigol sydd â pherthynas arwyddocaol ag amddifadedd materol. Mae Ffigur 4.13 yn dangos effaith statws gweithio aelwyd ar debygolrwydd profi amddifadedd materol. Y lleiaf o bobl sy'n gweithio, yr uchaf yw'r tebygolrwydd o amddifadedd materol, gyda 6 phwynt canran o gynnydd os mai dim ond rhai o aelodau'r aelwyd sy'n gweithio a 4 pwynt canran pellach o gynnydd os nad oes unrhyw un o'r aelwyd yn gweithio (h.y. 10 pwynt canran yn uwch nag os yw holl aelodau'r aelwyd mewn cyflogaeth). Gwelwyd nad oedd y gwahaniaeth rhwng amddifadedd materol pawb yn gweithio a neb o oedran gweithio, a oedd yn bresennol yn yr ystadegau disgrifiadol, yn arwyddocaol yn ystadegol. Golyga hyn

⁴¹ Mae'r ffigurau'n wahanol i'r rhai sydd ar gael ar StatsCymru oherwydd y dull gwahanol a ddefnyddir yma i benderfynu ar amddifadedd materol.

y gall y gwahaniaeth a welir yn y sampl fod o ganlyniad i hap, ac ni allwn ddod i'r casgliad bod y gwahaniaeth hwn yn bodoli yn y boblogaeth mewn gwirionedd.

Ffigur 4.13: Effaith statws gwaith aelwyd ar amddifadedd materol



Nid yw effaith statws gweithio aelwydydd yn ystyried nifer yr oedolion ar yr aelwyd. Mewn gwirionedd, nid yw union nifer yr oedolion o oedran gweithio ar yr aelwyd (yn hytrach na bod rhai/y cyfan/dim un yn gweithio) yn rhagfynegydd arwyddocaol o ran a yw'r aelwyd honno'n debygol o brofi amddifadedd materol ai peidio. Yn ogystal, nid yw'r effaith hon yn ystyried y math o waith cyflogedig y gall y rhai sydd ar yr aelwyd fod yn ei wneud, ac nid yw'n gwahaniaethu rhwng cyflogaeth ran amser a chyflogaeth lawn amser.


4.4 Amddifadedd materol a lle

4.4.1 Awdurdod lleol a'r ardal lleol

Er nad oedd wedi ei chynnwys yn y dadansoddiad o amryw o elfennau, ymchwiliwyd i'r berthynas rhwng amddifadedd materol aelwyd ac awdurdod lleol. Ffigur 4.14 yn dangos cyfran yr aelwydydd mewn amddifadedd materol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r llinell gyfeirio doredig tua 21% yn cyfeirio at y trothwy lle gosodwyd amddifadedd materol ar gyfer y dadansoddiad hwn. Mae'r bariau gwallau ar frig pob bar yn rhoi syniad o gywirdeb ein hamcangyfrif sampl. Gan ddefnyddio'r bariau gwallau fel canllaw, ymddengys bod gan Sir Fynwy (15%), Powys (16%), Gwynedd (17%) ac Ynys Môn (16%) i gyd lefelau sylweddol is na'r cyfartaledd o lefelau amddifadedd materol. I'r gwrthwyneb, ymddengys bod gan Torfaen (27%) a Wrecsam (25%) lefelau o amddifadedd materol ar yr aelwyd sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd yn ystadegol. Fel rheol gyffredinol, gellid ystyried yr awdurdodau lleol hynny nad yw eu bariau gwallau yn gorgyffwrdd fel rhai sydd â chyfrannau sylweddol wahanol o amddifadedd materol (e.e. Sir Fynwy a Thorfaen)⁴².

⁴² Nid yw'r gwahaniaethau hyn wedi eu profi'n ffurfiol, a chyflwynir y rheol hon fel canllaw bras.


Ffigur 4.14: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl Awdurdod lleol



Gan barhau â'r ymchwiliad i berthynas newidynnau ardal leol ag amddifadedd materol aelwydydd, defnyddiwyd data cod post ynghyd â meini prawf ONS i benderfynu a oedd yr aelwyd mewn lleoliad trefol neu wledig⁴³. Mae Ffigur 4.15 yn dangos bod cyfran lai o aelwydydd gwledig mewn amddifadedd na'r rhai mewn ardaloedd trefol (17% o'i gymharu â 23%). Heb ystyried ffactorau eraill, roedd y gwahaniaeth 6 pwynt canran hwn yn arwyddocaol yn ystadegol. Fodd bynnag, unwaith yr ystyriwyd nodweddion eraill, nid oedd natur trefol/gwledig yr aelwyd yn arwyddocaol yn ystadegol.

⁴³ Roedd y rhai mewn grwpiau dosbarthu ONS Trefol > 10K - llai prin a Threfi a'u cyrion - llai prin yn cael eu hystyried yn drefol, gyda phopeth arall wedi ei ddosbarthu fel ardaloedd gwledig.

Ffigur 4.15: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl dosbarthiad trefol-gwledig



Gwelwyd bod cyfran uwch o aelwydydd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf⁴⁴ mewn amddifadedd materol nag mewn ardaloedd eraill: 34% mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a 18% mewn ardaloedd eraill. Roedd y gwahaniaeth 16 pwynt hwn yn arwyddocaol yn ystadegol wrth edrych ar y berthynas newidyn sengl. Fodd bynnag, fel yn achos yr ardal drefol-wledig, pan ystyriwyd ffactorau eraill, nid oedd hyn yn wir. Gwelwyd perthynas debyg ar gyfer ardaloedd Lleodd Llewyrchus Llawn Addewid⁴⁵. Gwelwyd perthynas ystadegol arwyddocaol ag amddifadedd materol aelwyd, gyda thai o fewn Lleodd Llewyrchus Llawn Addewid 7% yn fwy tebygol (ar ganran o 28%) o fod mewn amddifadedd materol na'r rhai mewn ardaloedd eraill (21%). Unwaith eto, nid oedd y berthynas hon yn arwyddocaol pan ystyriwyd ffactorau eraill.

Er y gwelwyd bod ffactorau lefel ardal, ar y cyfan, yn llai defnyddiol o ran esbonio gwahaniaethau mewn amddifadedd materol na nodweddion lefel unigol, mae rhai ffactorau lefel ardal yn fwy defnyddiol nag eraill. Os yw lefel y mesuriad ar lefel leol, yn hytrach na lefel aelwydydd unigol, mae rhedeg modelau amnyth yn datgelu bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yn fesur gwell ar gyfer rhagfynegi na'r awdurdod lleol. Mae'r berthynas rhwng WIMD ac amddifadedd materol yn cael ei harchwilio ymhellach yn yr adran a ganlyn.

4.4.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru⁴⁶. Mae'r mynegai yn cynnwys set o wyth maes sy'n sail i fynegai cyffredinol. Yr wyth parth hyn yw incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. Ymchwiliwyd i'r

⁴⁴ <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?skip=1&lang=cy>


⁴⁵ [Lleodd Llewyrchus Llawn Addewid](#) - manau a nodwyd yng nghanol trefi, cymunedau arfordirol ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer adfywio rhwng 2014 a 2017.

⁴⁶ <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy>

berthynas rhwng amddifadedd materol, fel y'i casglwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol, a'r mesurau WIMD hyn, wedi eu dadelfennu'n gwintelau. Gan ddefnyddio'r mesur Arolwg Cenedlaethol parhaus, cyfrifwyd cydberthynas rhwng amddifadedd materol aelwydydd a sgoriau cwintelau WIMD. Nid yw'n syndod bod perthynas gadarnhaol rhwng amddifadedd materol aelwyd a mesurau WIMD wrth eu harchwilio'n unigol. Mae'r cysylltiadau unigol hyn yn parhau i fod yn arwyddocaol wrth ddefnyddio'r dangosydd deuaidd, amddifadedd / dim amddifadedd. Fodd bynnag, pan ystyrir ffactorau eraill, nid yw'r cysylltiadau hyn bellach yn arwyddocaol (ac eithrio sgôr incwm WIMD, gweler isod). Fel y gwelwyd yn yr adran flaenorol, nid yw newidynnau ardal leol eraill yn well wrth esbonio amddifadedd materol, ond yn hytrach, y ffordd orau o ddeall amddifadedd materol aelwydydd unigol yw yn ôl nodweddion aelwydydd ac ar lefel yr ymatebwyr.

Er nad oedd unrhyw fesur WIMD arall yn arwyddocaol wrth ystyried nodweddion ar lefel unigol (ymatebwyr neu aelwydydd), roedd y sgôr incwm WIMD yn arwyddocaol. Mae sgôr incwm WIMD yn deillio o ganran y boblogaeth sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm⁴⁷ yn yr ardal honno, neu sy'n geisydd lloches a gefnogir. Mae hyn yn datgelu perthynas ddiddorol bosibl rhwng statws cyflogaeth yr unigolyn, statws gwaith yr aelwyd a sgôr incwm yr ardal leol⁴⁸. Mae Ffigur 4.16 yn dangos cyfrannau amddifadedd materol yn ôl cwintelau sgôr incwm WIMD. Gellir gweld cynnydd graddol yng nghyfran yr aelwydydd sy'n profi amddifadedd materol wrth i'r cwintelau amddifadedd gynyddu.

Ffigur 4.16: Amddifadedd materol aelwydydd yn ôl sgôr incwm WIMD




Wrth reoli newidynnau eraill, roedd y cysylltiad rhwng amddifadedd materol aelwydydd a mesur incwm WIMD yn parhau'n arwyddocaol yn ystadegol. Mae Ffigur 4.17 yn dangos y cynnydd yn y tebygolrwydd a ragwelir o amddifadedd materol ar gyfer pob lefel o sgôr incwm WIMD (mewn cwintelau) gan gyfeirio at y lleiaf amddifadus. Mae'n bosibl nad yw'n

⁴⁷ Yn derbyn credydau treth gydag incwm sydd 60% yn is na chanolrif Cymru.

⁴⁸ Mae'n bwysig nodi na chaiff y mathau hyn o fesurau incwm eu casglu'n uniongyrchol drwy'r Arolwg Cenedlaethol.

syndod mai'r agosaf at y sgôr WIMD mwyaf amddifadus y mae aelwydydd, y mwyaf yw'r cynnydd yn y tebygolrwydd o amddifadedd materol aelwydydd.

Ffigur 4.17: Effaith mesur incwm WIMD ar amddifadedd materol aelwydydd



4.5 Amddifadedd materol, llesiant a mynediad at wasanaethau

4.5.1 Llesiant personol

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth am ganfyddiad o lesiant yr ymatebwyr. Mae'r meysydd llesiant personol a ymchwiliwyd yn ymwneud ag agweddau ar iechyd, bodlonrwydd, pryder a pherthynas bersonol. Er ei bod hi'n rhesymol tybio bod perthynas rhwng amddifadedd materol a llesiant personol, penderfynwyd peidio â chynnwys mesurau llesiant yn y dadansoddiad o amryw o elfennau. Mae'r dadansoddiad o amryw o elfennau yn tybio bod perthynas gyfeiriadol; yn benodol, bod y newidynnau a amlinellir uchod yn effeithio ar y tebygolrwydd o brofi amddifadedd materol. Gellir dadlau, yn hytrach na gweld pethau o'r ffordd hon, mai profi amddifadedd materol sy'n debygol o effeithio ar lefelau llesiant personol. O'r herwydd, byddai wedi bod yn amhriodol eu cynnwys yn y dadansoddiad o amryw o elfennau. Yn hytrach, mae rhai ystadegau disgrifiadol sylfaenol wedi cael eu cynnwys yma i roi syniad o'r cysylltiad rhwng llesiant personol ac amddifadedd materol.

Dewiswyd sawl cwestiwn i ddechrau ymchwilio i'r cysylltiad rhwng llesiant personol ac amddifadedd materol. Mesurwyd bodlonrwydd cyffredinol â bywyd⁴⁹, y teimlad fod pethau'n werth chweil⁵⁰, hapusrwydd ddoe⁵¹, a swm yr amser ar gyfer pethau pleserus⁵² ar raddfa o 1 i 10, gyda sgôr uwch yn nodi mwy o foddhad/cytundeb. Fel y gwelir yn Ffigur 4.18, yn gyffredinol, roedd y rhai mewn amddifadedd materol ac fel arall ar yr

⁴⁹ 'Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd y dyddiau hyn?'

⁵⁰ 'Yn gyffredinol, i ba raddau y teimlwch fod y pethau rydych chi'n eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil?'


⁵¹ 'Yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe?'

⁵² '[Pa mor fodlon ydych chi â] faint o amser sydd gennych chi i wneud y pethau rydych chi'n hoffi eu gwneud?'

aelwyd yn gymharol fodlon â'r holl agweddau hyn ar lesiant personol. Fodd bynnag, adroddodd y rhai sy'n profi amddifadedd materol lefelau is ar gyfartaledd ar gyfer pob un o'r mesurau llesiant personol hyn. Mesurwyd pryder cyffredinol ddoe⁵³ ar raddfa rhwng 0 a 10 hefyd, gyda sgôr uwch yn dangos lefel uwch o bryder. Er bod y ddau grŵp wedi nodi lefelau cymharol isel o bryder ar gyfartaledd, mae'r canlyniadau'n dangos bod y rhai sydd mewn amddifadedd materol yn profi lefelau cyfartalog uwch o bryder na'r rhai nad ydynt mewn amddifadedd materol (Ffigur 4.18). sgôr gymedrig

Profwyd y gwahaniaethau rhwng sgoriau cymedrig y ddau grŵp yn ffurfiol, a chanfuwyd eu bod yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae gan y rhai sydd mewn amddifadedd materol lefelau sylweddol is ar gyfartaledd o fodlonrwydd â bywyd, hapusrwydd, amser i wneud pethau pleserus a bodlonrwydd fod y pethau maent yn eu gwneud yn eu bywyd yn werth chweil. Mae'r gwahaniaeth mewn lefelau pryder cyfartalog, gyda lefelau uwch o bryder gan y rhai sydd mewn amddifadedd materol, hefyd yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ffigur 4.18: Ymateb cymedr llesiant personol yn ôl amddifadedd materol⁵⁴



Yn debyg i'r mesurau llesiant, ni chynhwyswyd gwybodaeth yn y dadansoddiad o amryw o elfennau ar fynediad ymatebwyr at wasanaethau ariannol sy'n darparu cyngor a chymorth i bobl sydd â phroblemau gyda dyledion. O blith y rhai a geisiodd gyngor ariannol, nid yw'n syndod bod y mwyafrif mewn amddifadedd materol (68% [$\pm$ 6%]) mewn amddifadedd materol, o'i gymharu â 32% [$\pm$ 6%] fel arall). Agwedd ar amddifadedd materol yw a all ymatebwyr gadw at eu cyfrifoldebau ariannol ai peidio⁵⁵. O roi'r cwestiwn hwn ar wahân, o blith y rhai nad ydynt yn cwrdd â'r cyfrifoldebau hyn, gwelwyd bod 27% ($\pm$ 5%) wedi ceisio cyngor/cymorth sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn. Yn ddiddorol, roedd ddeutu

⁵³ '... pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe?'

⁵⁴ Mae gan yr amcangyfrifon hyn, sy'n seiliedig ar sampl yr Arolwg Cenedlaethol, gyfyngau hyder cysylltiedig i adlewyrchu natur amcangyfrif yn seiliedig ar samplau a'u cymhwyso i'r boblogaeth ehangach. Ni chaiff y rhain eu harddangos yn Figure 0.23 fel bariau gwallau gan fod y cyfyngau hyder o amgylch yr amcangyfrifon hyn yn fach iawn.

⁵⁵ Biliau ac ymrwymadau credyd.

3% ($\pm 0.5\%$) o'r rhai a ddywedodd eu bod yn cadw at eu hymrwymadau ariannol hefyd wedi ceisio cyngor/cymorth gan y sefydliadau hyn yn ystod y 12 mis diwethaf.


4.5.2 Bodlonrwydd â thai

Casglwyd bodlonrwydd â thai hefyd yn yr Arolwg Cenedlaethol, a gwelwyd bod cysylltiad ystadegol sylweddol ag amddifadedd materol. O'r rhai a oedd yn anfodlon â'u tai, roedd 63% mewn amddifadedd materol. Fodd bynnag, ni chynhwyswyd y ffactor hwn yn y dadansoddiad o amryw o elfennau am yr un math o resymau â bodlonrwydd â llesiant personol. Mae'n rhesymol tybio y gall amddifadedd materol gael effaith ar fodlonrwydd gyda thai: mae'n ddigon posibl y byddai'r rhai na allant fforddio cynnal eu cartrefi yn anfodlon ag ef. Mae'n debygol hefyd y bydd y rhai sydd mewn amddifadedd materol yn byw mewn tai ar ben isaf y sector, ac felly'n fwy tebygol o fod yn anfodlon.

4.5.3 Mynediad at y rhyngrwyd

Gellid gweld diffyg mynediad at y rhyngrwyd fel un o ganlyniadau amddifadedd materol, o ran methu â fforddio mynediad. Ar y llaw arall, gall diffyg mynediad at y rhyngrwyd waethygu amddifadedd materol. Mae'r ddadl hon yn canolbwyntio ar y syniad o 'breimiwm tlodi', lle mae'r aelwydydd hyn yn talu pris sy'n anghymesur fwy am nwyddau a gwasanaethau. Ymhellach, mae diwygio lles yn gwneud llythrennedd digidol a mynediad at y rhyngrwyd yn rheidrwydd, gan fod angen cynyddol i hawlio budd-daliadau ar-lein⁵⁶. Roedd cyfran uwch o aelwydydd lle profwyd amddifadedd materol ymhlith y rhai heb fynediad at y rhyngrwyd na'r rhai sydd â mynediad (gweler Ffigur 4.19). Gan feddwl am hyn mewn ffordd arall, nid oes gan 28% o aelwydydd lle profir amddifadedd materol fynediad at y rhyngrwyd. Os gwneir y rhagdybiaeth bod mynediad at y rhyngrwyd yn effeithio ar lefelau amddifadedd materol, yna, drwy reoli newidynnau eraill, mae diffyg mynediad yn arwain at gynnydd o 8 pwynt canran yn y tebygolrwydd a ragwelir o brofi amddifadedd materol.

Ffigur 4.19: Amddifadedd materol aelwyd yn ôl mynediad at y rhyngrwyd




⁵⁶Gweler dogfen Llywodraeth Cymru, Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Fframwaith strategol ar gyfer Cymru (2010) a Chynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Cynnydd Blyneddol (2015).

4.6 Crynodeb

Mae Ffigur 4.20 yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad o amryw o elfennau. Mae'n dangos effaith fwyaf pob newidyn ar y tebygolrwydd o brofi amddifadedd materol fel newid yn y tebygolrwydd. Yn achos newidynnau a oedd â mwy nag un categori ymateb, e.e. oedran, dangosir y lefel gyda'r cynnydd/gostyngiad mwyaf dramatig. Mae gan bob un o'r ffactorau sydd yn y tabl crynodeb berthynas ystadegol arwyddocaol ag amddifadedd materol aelwydydd. Ar y cyfan, mae'r nodweddion a restrir yn cael effaith 'gadarnhaol' ar amddifadedd materol, yn y modd maent yn dangos cynnydd yn y tebygolrwydd a ragwelir o brofi amddifadedd materol wrth i'r categorïau o fewn y nodweddion gynyddu. Yr eithriad i hyn yw effaith oedran ac ymddeoliad, sydd ill dau yn dangos gostyngiad. Mae hyn yn gwneud synnwyr gan fod rhywfaint o berthynas rhyngddynt, yn amlwg (ond nid i'r graddau eu bod yn cyd-fynd). Mae Ffigur 4.20 yn dangos fod pobl hŷn yn llai tebygol o brofi amddifadedd materol (fel y'i mesurir yma) na phobl iau.

Ffigur 4.20: Uchafswm effaith newidynnau ar amddifadedd materol aelwydydd



Mae Ffigur 4.20 hefyd yn rhoi syniad o gryfder cymharol pob nodwedd. Er enghraifft, deiliadaeth tai (yn benodol, tai cymdeithasol) sy'n cael yr effaith fwyaf, sef 18 pwynt canran, ond mae aelwydydd ag iechyd gwael a rhieni sengl yn cael effeithiau cymharol fach.

5 Amddifadedd materol plant

Roedd 32% o aelwydydd â phlant dibynnol yn yr 20% isaf o aelwydydd a brofodd amddifadedd materol. At ddibenion y dadansoddiad hwn, dosbarthwyd achosion fel rhai sy'n profi amddifadedd penodol i blant os oedd yr aelwyd mewn amddifadedd ac roedd o leiaf un eitem penodol i blant yn absennol⁵⁷. Cafodd 7% o aelwydydd eu hystyried fel eu bod mewn amddifadedd materol gan ddefnyddio'r mesur diwethaf hwn. Mae'r dadansoddiadau a ganlyn yn ystyried amddifadedd materol aelwydydd â phlant o ran yr aelwydydd hynny sy'n profi amddifadedd materol ar yr aelwyd yn unig, ac aelwydydd sy'n profi amddifadedd materol penodol i blant (sydd hefyd yn nodi bod yr aelwyd mewn amddifadedd materol ar yr aelwyd), o'i gymharu â'r aelwydydd hynny nad ydynt mewn amddifadedd.

Yn yr un modd â'r dadansoddiad blaenorol, roedd cysylltiadau rhwng amddifadedd materol a nodweddion eraill yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar ei gilydd yn y lle cyntaf. Yn wahanol i Adran 4, nid yw bariau gwallau yn cael eu cynnwys yn y ffigurau yn yr adran hon. Mae hyn oherwydd y byddai eu cynnwys nhw wedi gwneud y ffigurau yn rhy gymhleth. Yn hytrach, gellir dod o hyd i gyfyngau hyder ar gyfer yr amcangyfrifon hyn yn Atodiad 2. Yna, archwiliwyd y berthynas rhwng amddifadedd materol a phob nodwedd o'r newydd ar ôl rheoli newidynnau eraill. Cynhaliwyd y dadansoddiad olaf gan ddefnyddio atchweliad logistaidd lluosnomaidd⁵⁸. Mae hyn yn caniatáu i'r berthynas rhwng nodweddion aelwydydd ac amddifadedd gael ei hymchwilio ar bob lefel o amddifadedd - hynny yw, dim amddifadedd, profi amddifadedd ar yr aelwyd, amddifadedd penodol i blant. Fel gydag amddifadedd materol aelwydydd yn Adran 4, nodwyd ffactorau a oedd yn arwyddocaol o ran rhagweld amddifadedd.

5.1 Nodweddion yr ymatebwyr

5.1.1 Oedran

Datgelodd ymchwiliad i oedran yr oedolyn cyfrifol ar yr aelwyd batrwm cyffredinol, lle mae cynnydd mewn cromfach oedran, mae cyfran yr amddifadedd materol yn gostwng (gweler Ffigur 5.1).


Pobl 16-24 oed gyda phlant oedd yn dioddef y cyfrannau uchaf o amddifadedd materol (44% amddifadedd aelwydydd, 9% yn profi amddifadedd penodol i blant). Er bod y patrwm hwn yn amlwg yn yr ystadegau disgrifiadol, datgelodd profion gwrthrychol bod hyn yn arwyddocaol wrth ystyried amddifadedd penodol i blant yn unig (ac nid yn arwyddocaol o ran amddifadedd aelwydydd). Ar ben hynny, pan ystyrir nodweddion eraill, yr unig lefel sy'n parhau'n arwyddocaol yn ystadegol yw'r grŵp oedran hynaf (y rhai 65 oed a hŷn) o

⁵⁷ Am ragor o fanylion ynghylch sut penderfynwyd ar y trothwyon hyn, gweler Adran 2.2.

⁵⁸ Er y gellid cysyniadoli'r newidyn amddifadedd materol dibynnol fel un trefnol, cafodd y rhagdybiaeth ods cymesur ei thorri, ac felly ni ellid defnyddio'r model logistaidd trefnol. Gan hynny, defnyddiwyd logit lluosnomaidd (nad yw'n tybio ods cyfrannol) fel dewis arall.

gymharu hynny â'r grŵp oedran ieuengaf (y rhai rhwng 16 a 24 oed). Mae gostyngiad o 6 pwynt canran yn y tebygolrwydd o brofi amddifadedd materol penodol i blant yn achos y rhai y mae eu hoedolyn cyfrifol yn y cromfach oedran uchaf o'i gymharu â'r isaf. O ystyried y gwrthwyneb, mae rhieni ifanc yn fwy tebygol o fod â phlant sy'n dioddef amddifadedd materol penodol i blant na rhieni'r⁵⁹ rhai sydd yn y cromfach oedran hynach. Nid yw'r ffaith nad oedd y gwahaniaethau amlwg ymhlith y grwpiau oedran iau yn yr ystadegau disgrifiadol yn arwyddocaol yn ystadegol wrth reoli ar gyfer newidynnau yn golygu na allwn ddod i'r casgliad bod y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol o ran rhagfynegi amddifadedd materol yn y boblogaeth


Ffigur 5.1: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl oedran



5.1.2 Rhyw

Roedd gan rywedd y rhiant berthynas ystadegol arwyddocaol ag amddifadedd materol mewn aelwydydd â phlant. Fel y gwelir yn Ffigur 5.2, adroddodd cyfran uwch o fenywod eu bod wedi profi amddifadedd ar yr aelwyd (29%) ac amddifadedd penodol i blant (9%) o'i gymharu â dynion (18% a 4% yn y drefn honno).


Ffigur 5.2: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl rhyw



⁵⁹ Drwy gydol yr adroddiad, mae'r term "rhiant" yn cyfeirio at rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol.

Roedd y berthynas rhwng rhyw ac amddifadedd materol yn parhau'n arwyddocaol ar ôl rheoli ffactorau eraill, gyda chryfder effaith amrywiol rhwng y ddwy lefel o amddifadedd. O'u cymharu â dynion, roedd menywod 6 pwynt canran yn fwy tebygol o brofi amddifadedd materol ar yr aelwyd a 2 bwynt yn fwy tebygol o fod yn brin o eitemau penodol i blant (gweler Ffigur 5.3)


Ffigur 5.3: Effaith rhyw ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant




5.1.3 Iechyd

O'r cwestiynau sy'n ymwneud ag iechyd a ofynnwyd i'r ymatebwyr, roedd statws iechyd cyffredinol ac a oedd yr ymatebydd yn dioddef o salwch neu glefyd sy'n cyfyngu ar fywyd yn rhagfynegwyr ystadegol arwyddocaol o brofi amddifadedd materol yn achos aelwydydd â phlant. Dangosir y cyfrannau amddifadedd materol yn ôl statws iechyd a salwch cyfyngol yn Ffigur 5.4 a Ffigur 5.5 yn y drefn honno. Fel y gwelir yn y ffigurau hyn, ymddengys bod y berthynas rhwng profi amddifadedd materol a'r ddau fesur iechyd hyn yn debyg. Mae gan y rhai sy'n adrodd bod ganddynt iechyd gwael gyfrannau mwy o amddifadedd (38% o aelwydydd a 30% yn benodol i blant) o gymharu â'r rhai sy'n dweud bod ganddynt iechyd gweddol neu dda (24% o aelwydydd a 6% yn benodol i blant). Yn yr un modd, mae rhagor o'r rhai sydd â salwch cyfyngol hirdymor hefyd yn profi amddifadedd materol (34% o aelwydydd a 16% yn benodol i blant) na'r rhai nad oes ganddynt salwch o'r fath (23% o aelwydydd a 5% yn benodol i blant). Yn ogystal, mae cyfran sylweddol o'r rhai mewn iechyd gwael yn adrodd eu bod wedi profi amddifadedd ar yr aelwyd a phenodol i blant na'r rhai nad oes ganddynt salwch cyfyngol hirdymor.

Ffigur 5.4: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl statws iechyd



Ffigur 5.5: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl salwch cyfyngus yr ymatebydd



Arhosodd y berthynas rhwng iechyd cyffredinol ac amddifadedd penodol i blant yn ystadegol arwyddocaol wrth reoli ar gyfer newidynnau eraill. Yn achos y rhai sy'n nodi iechyd gwael sydd â phlentyn/plant, mae'r tebygolrwydd a ragwelir o amddifadedd materol penodol i blant yn 6 pwynt canran yn uwch na'r rhai sy'n adrodd am iechyd gweddol i dda, o gadw'r holl ffactorau eraill yr un peth. Fodd bynnag, wrth reoli ffactorau eraill, nid oedd y berthynas amlwg rhwng iechyd cyffredinol ac amddifadedd aelwydydd yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol.


Roedd cyswllt arwyddocaol yn parhau rhwng salwch cyfyngol ac amddifadedd aelwydydd a phenodol i blant yn achos yr aelwydydd hynny â phlant pan ystyriwyd ffactorau eraill. Cynyddodd y tebygolrwydd a ragwelir o brofi amddifadedd tua'r un faint yn achos y rhai â salwch cyfyngol o gymharu hynny â rhai nad oes ganddynt salwch cyfyngol; cafwyd cynnydd o 4 pwynt canran mewn achosion o brofi amddifadedd aelwydydd yn unig, a chynnydd o 3 pwynt o ran profi amddifadedd penodol i blant. Mae'n ddiddorol nodi ei bod

yn ymddangos bod y ffactor iechyd cyffredinol yn cael rhagor o effaith ar amddifadedd penodol i blant na salwch sy'n cyfyngu.

5.1.4 Cymwysterau


Yn debyg i amddifadedd materol aelwydydd yn ehangach, roedd perthynas arwyddocaol rhwng cymhwyster uchaf yr ymatebydd ag amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant. Mae Ffigur 5.6 yn pwysleisio po uchaf y cymhwyster addysgol, y lleiaf y gyfran o amddifadedd materol (aelwydydd a phenodol i blant). Ar ôl rheoli newidynnau eraill, roedd y cysylltiadau hyn yn parhau'n arwyddocaol ar y cyfan.

Ffigur 5.6: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl cymhwyster uchaf



Ffigur 5.7 yn dangos effaith pob lefel o gymhwyster ar y tebygolrwydd a ragwelir o brofi'r ddau fath o amddifadedd. Mae effaith cymhwyster yn llawer llai amlwg ar gyfer amddifadedd penodol i blant (cynnydd o hyd at 3%) nag o ran amddifadedd aelwydydd yn unig (cynnydd o hyd at 10%), gyda lefel 3 ddim yn arwyddocaol ar gyfer amddifadedd penodol i blant.

Ffigur 5.7: Effaith cymhwyster uchaf ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant




5.2 Perthynas deuluol ac aelwydydd

5.2.1 Statws priodasol

Canfuwyd bod cysylltiad sylweddol rhwng statws priodasol yr ymatebydd ac amddifadedd materol aelwydydd â phlant. Mae


Ffigur 5.8 yn dangos cyfrannau amddifadedd materol yn ôl statws priodasol. Yr aelwydydd hynny lle'r oedd yr ymatebydd yn briod neu mewn partneriaeth oedd â'r cyfrannau isaf o amddifadedd ar yr aelwyd a phenodol i blant (18% a 4% yn y drefn honno), tra bod y rhai lle'r oedd yr ymatebydd wedi ysgaru neu wedi gwahanu yn dangos y cyfrannau uchaf o amddifadedd ar yr aelwyd a phenodol i blant (36% a 18% yn y drefn honno).

Ffigur 5.8: Amddifadedd materol yn ôl statws priodasol, aelwydydd â phlant



Roedd statws priodasol hefyd yn parhau i fod yn arwyddocaol yn gyffredinol ar ôl rheoli ffactorau eraill. O ran bod wedi ysgaru neu wedi wahanu, cysylltwyd hynny â chynnydd yn y tebygolrwydd a ragwelir o brofi amddifadedd aelwydydd a phenodol i blant gymaint ag 8 a 6 pwynt canran yn y drefn honno (Ffigur 5.9). Fodd bynnag, dim ond gyda phrofiad o amddifadedd penodol i blant yr oedd cysylltiad sylweddol â bod yn sengl, gyda chynnydd o 3 pwynt canran. Nid oedd amddifadedd aelwydydd nac amddifadedd penodol i blant yn gysylltiedig yn sylweddol â'r ffaith bod ymatebydd yn weddw yn hytrach na phriod, unwaith yr ystyriwyd ffactorau eraill.

Ffigur 5.9: Effaith statws priodasol ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant




Er bod y cysylltiad â statws un rhiant yn arwyddocaol wrth ystyried y sampl cyfan (gweler Adran 4.2.3), roedd gan y nodwedd hon berthynas wahanol wrth ystyried aelwydydd â phlant yn unig. Yn gyfrannol, roedd aelwydydd un rhiant yn fwy tebygol o adrodd am amddifadedd materol ar yr aelwyd (45%) ac amddifadedd penodol i blant (14%) nag aelwydydd eraill (gyda 23% mewn amddifadedd materol ar yr aelwyd a 6% mewn amddifadedd penodol i blant). Fodd bynnag, unwaith yr ystyriwyd ffactorau eraill, nid oedd y berthynas hon yn parhau'n arwyddocaol yn ystadegol. Mae hyn yn awgrymu bod nodweddion eraill yn well o ran esbonio amddifadedd materol aelwydydd â phlant (gweler 5.6 Crynodeb).

5.2.2 Nifer y plant

Canfuwyd bod cysylltiad arwyddocaol rhwng nifer y plant dibynnol⁶⁰ ar yr aelwyd ac amddifadedd materol penodol i blant. Mae Ffigur 5.10 yn dangos, er bod y cyfrannau amddifadedd yn debyg ymhlith aelwydydd gydag un plentyn a dau blentyn, mae gan y rhai sydd â thri neu ragor o blant lefelau ychydig yn uwch o amddifadedd (hyd at 6% ar gyfer amddifadedd aelwydydd a phenodol i blant).

Ffigur 5.10: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl nifer y plant




Drwy reoli nodweddion eraill, datgelwyd nad yw effaith nifer y plant mor gryf ag y gallai ymddangos o'r ystadegau disgrifiadol uchod. Nid oedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng nifer y plant ac amddifadedd aelwydydd, ond roedd yn gysylltiedig â chynnydd 2 bwynt canran fesul plentyn yn y tebygolrwydd o brofi amddifadedd penodol i blant.⁶¹ Roedd perthynas arwyddocaol ystadegol hefyd rhwng bod â phlentyn dan 5 oed ac amddifadedd penodol i blant. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd cael plentyn dan 5 oed yn gysylltiedig â gostyngiad o 3 pwynt canran yn y tebygolrwydd o amddifadedd materol plant. Mae Ffigur 5.11 yn dangos cyfrannau amddifadedd materol yr aelwydydd

⁶⁰ Mae hyn ychydig yn wahanol i gyfanswm nifer y plant ar yr aelwyd a ddefnyddir yn adran 4. Yn adran 4, mae cyfanswm nifer y plant yn cyfeirio at y rhai dan 16 oed ar yr aelwyd. Mae nifer y plant dibynnol yma'n cynnwys y plant hyn yn ogystal â phobl ifanc 16-19 oed mewn addysg lawn amser.

⁶¹ Mae'n bwysig nodi bod hwn yn gynnydd bras, yn hytrach nag union fesur, gan ei fod yn cael ei fesur gan y gyfradd newid ar unwaith.

hynny sydd â phlant dan 5 oed a'r rhai sydd â phlant hŷn. Mae'n ddiddorol nodi bod cyfran yr aelwydydd sy'n profi amddifadedd materol cyffredinol yn fwy ar gyfer y rhai sydd â phlant dan 5 oed na'r rhai sydd hebddynt. Gallai'r anghysondeb rhwng amddifadedd aelwydydd a phenodol i blant yma fod yn arteffact o'r dangosyddion sy'n benodol i blant, ac mae'n bosibl na fyddant yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion plant iau a babanod, yn hytrach na gwahaniaeth go iawn rhwng lefel yr amddifadedd a ddioddefir.

Ffigur 5.11: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl plant sydd dan 5 oed



5.2.3 Daliadaeth tai


Roedd cyfran lawer uwch o'r rhai mewn tai rhent yn dioddef amddifadedd ar yr aelwyd a phenodol i blant na'r rhai sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain. Mae Ffigur 5.12 yn dangos bod y cyfrannau uchaf o amddifadedd materol i'w gweld ymysg y rhai sy'n rhentu gan landlordiaid cymdeithasol⁶² (47% o amddifadedd ar yr aelwyd a 18% yn benodol i blant). Roedd gan y rhai yn y sector rhentu preifat gyfrannau ychydig yn is o amddifadedd, gyda 39% yn profi amddifadedd ar yr aelwyd a 10% gydag amddifadedd penodol i blant. Y rhai a ddatganodd eu bod yn berchen-feddianwyr oedd â'r cyfrannau isaf, gydag 14% yn profi amddifadedd ar yr aelwyd a 3% yn profi amddifadedd penodol i blant.

Roedd y gwahaniaeth hwn rhwng mathau o ddeiliadaeth yn parhau'n arwyddocaol yn ystadegol unwaith yr ystyriwyd nodweddion eraill. Mae Ffigur 5.13 yn dangos cysylltiad sylweddol rhwng rhentu ac amddifadedd aelwydydd, gyda chynnydd 19 pwynt canran yn y tebygrwydd i'r rhai mewn tai cymdeithasol a chynnydd o 17 pwynt i'r rhai yn y sector rhentu. Er bod yr effaith hefyd yn arwyddocaol o ran amddifadedd penodol i blant, roedd yn llawer llai amlwg, gyda chynnydd o 2 pwynt canran ar gyfer y sectorau rhentu o gymharu hynny â pherchen-feddianwyr. Mae hyn yn dangos, er y gall y cyfrannau fod yn


⁶² Cymdeithas tai neu awdurdod lleol.

sylweddol wahanol i'r grwpiau hyn, unwaith y bydd nodweddion eraill wedi eu rheoli, mae'r union wahaniaeth o ran tebygrwydd yn debyg iawn i'r holl grwpiau daliadaeth tai.

Ffigur 5.12: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl daliadaeth tai



Ffigur 5.13: Effaith daliadaeth tai ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant




Mae'r ffactor hwn amlygu'n benodol achosoldeb yn y math hwn o ddadansoddiad. Wrth weithio gyda data arolwg trawsdoriadol fel hyn, gall fod yn anodd dirnad yr achos a'r effaith. Yn wir, dylwn ganolbwyntio ar ganfod, yn hytrach na hawlio, unrhyw fecanwaith achosol a allai fod ar waith. Er y gall rhai o'r newidynnau a nodir fel rhai sy'n cael effaith ar amddifadedd materol nodi perthynas gyfeiriadol, fel statws gweithio, er enghraifft, mewn achosion eraill, fel gyda deiliadaeth tai, mae'n bosibl y bydd cyfeiriad y berthynas yn llai eglur. Er mai'r iaith a ddefnyddir yw 'effaith ar' amddifadedd materol, mae'n bosibl mai'r ffaith bod ymatebydd yn profi amddifadedd materol o ddifrif sy'n peri iddynt geisio tai cymdeithasol (er enghraifft).

5.3 Cyflogaeth a chyllid

5.3.1 Lwfans

Fel gydag amddifadedd materol y sampl gyfan, roedd yn ymddangos bod perthynas rhwng statws cyflogaeth unigolion a lefelau amddifadedd. Mae Ffigur 5.14 yn dangos bod y rhai mewn cyflogaeth wedi adrodd am lefelau llawer is o'r ddau fath o amddifadedd (20% ar yr aelwyd a 4% yn benodol i blant) o gymharu hynny â'r rhai a oedd yn ddi-waith (42% ar yr aelwyd a 20% yn benodol i blant) neu'n economaidd anweithgar⁶³ (39% o aelwydydd ac 16% yn benodol i blant). Fel gyda'r sampl gyfan, unwaith yr ystyriwyd y nodweddion eraill, nid oedd y berthynas hon yn parhau'n arwyddocaol. Yn hytrach, statws gwaith yr holl aelwyd a oedd yn bwysicach o ran rhagweld amddifadedd materol.


Ffigur 5.14: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl statws cyflogaeth



Mae Ffigur 5.15 yn amlygu'r ffaith wrth i gyfran y bobl sy'n gweithio ar yr aelwyd ostwng, mae'r gyfran sy'n profi amddifadedd materol yn cynyddu, gyda'r gwahaniaeth mwyaf rhwng sefyllfa o bawb yn gweithio a neb yn gweithio. Mae'r berthynas hon yn parhau yr un fath yn fras ar ôl rheoli nodweddion eraill. O blith yr aelwydydd hynny lle mae pob oedolyn yn gweithio, dywedodd 19% eu bod wedi profi amddifadedd materol ar yr aelwyd a dim ond 3% wedi profi amddifadedd penodol i blant. Ar y pegwn arall, ar yr aelwydydd hynny lle nad oedd neb yn gweithio, roedd 50% mewn amddifadedd materol ar yr aelwyd a 24% wedi profi amddifadedd penodol i blant.


⁶³ Mae 'Economaidd anweithgar' yn cyfeirio at yr unigolion hynny nad ydynt yn ymgymryd â gwaith cyflogedig nac yn ei geisio.

Ffigur 5.15: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl statws gwaith yr aelwyd



Mae Ffigur 5.16 yn dangos y cysylltiad rhwng statws gweithio ac amddifadedd materol ar ôl ystyried yr holl ffactorau eraill. Mewn cymhariaeth ag aelwydydd lle mae pawb yn gweithio, mae'r tebygolrwydd o brofi amddifadedd penodol i blant yn cynyddu 3 pwynt canran os mai dim ond rhai o aelodau'r aelwyd sy'n gweithio. Mae'r cynnydd yn 6 pwynt canran os nad oes unrhyw un o oedran gweithio ar yr aelwyd yn gweithio. Mae effaith hyd yn oed yn fwy ar amddifadedd materol ar yr aelwyd, gyda chynnydd o 9 pwynt canran yn achos aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio o gymharu hynny ag aelwydydd sydd â'r un nodweddion lle mae pawb yn gweithio. Fodd bynnag, yn wahanol i amddifadedd penodol i blant, ni chafodd y ffaith mai dim ond rhai o aelodau'r aelwyd sy'n gweithio effaith arwyddocaol yn ystadegol ar yr amddifadedd hwn ar yr aelwyd.

Ffigur 5.16: Effaith statws gwaith yr aelwyd ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant



Yn yr un modd ag amddifadedd materol y sampl cyfan, nid oedd effaith statws gweithio'r aelwyd yn gysylltiedig â nifer yr oedolion ar yr aelwyd. Mewn gwirionedd, nid oedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng nifer yr oedolion ar yr aelwyd ac amddifadedd

materol aelwydydd â phlant. Y mae hefyd yn bwysig nodi nad yw effaith y statws gwaith a adroddir yma yn ystyried y gwahaniaeth rhwng patrymau gwaith neu fath o gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r ffactor hwn yn amlygu cyfyngiadau dadansoddiad arolwg trawsdoriadol wrth bennu achos ac effaith.


5.4 Amddifadedd materol a lle

5.4.1 Awdurdod lleol a'r ardal leol

Canfu'r dadansoddiad nad oedd fawr o wahaniaeth rhwng awdurdodau lleol o ran aelwydydd â phlant sy'n profi amddifadedd materol.

Cynhaliwyd archwiliad o newidynnau ardaloedd eysydd eraill hefyd. Mae Ffigur 5.17 yn dangos cyfrannau amddifadedd materol aelwydydd yn seiliedig ar eu dosbarthiad trefol-gwledig. Mae gan aelwydydd â phlant mewn ardaloedd trefol lle nad yw'r boblogaeth mor brin gyfrannau mwy o amddifadedd materol (26% ar yr aelwyd ac 8% yn benodol i blant) na'r rhai mewn ardaloedd gwledig (21% ar yr aelwyd a 4% yn benodol i blant). Fodd bynnag, wrth reoli ffactorau eraill, nid yw'r berthynas hon yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol na gwirioneddol. Canfuwyd canlyniadau tebyg ar gyfer dosbarthiadau ardal leol eraill. Roedd aelwydydd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf⁴⁴ yn fwy tebygol o brofi amddifadedd ar yr aelwyd (33%) ac amddifadedd penodol i blant (13%) na'r rhai nad ydynt mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (22% a 5% yn y drefn honno). Fodd bynnag, nid oedd y berthynas hon yn arwyddocaol ar ôl rheoli newidynnau eraill. Roedd cyfrannau is o amddifadedd materol yn ardaloedd Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid⁴⁵ (24% o amddifadedd ar yr aelwyd, 7% yn benodol i blant) na'r rhai nad oeddent mewn Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid (27% ar yr aelwyd a 15% yn benodol i blant). Unwaith eto, nid oedd y berthynas hon yn arwyddocaol ar ôl rheoli newidynnau eraill.

Ffigur 5.17: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl dosbarthiad trefol-gwledig.




Yn yr un modd â mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (ar y dudalen nesaf) ac amddifadedd materol aelwydydd y sampl cyfan, nid yw hyn yn golygu nad yw mesurau

ardal yn ddefnyddiol ynddynt eu hunain ac wrth ymchwilio i amddifadedd materol. Yn hytrach, mae nodweddion aelwydydd ac ymatebwyr unigol yn rhagfynegwyr mwy pwerus o amddifadedd materol ar lefel aelwydydd.

5.4.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)

Mae manylion am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i'w gweld yn Adran 4.4. Yn yr un modd ag amddifadedd cyffredinol ar yr aelwyd, nid oedd y berthynas rhwng amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant a dangosyddion WIMD yn arwyddocaol ar y cyfan ar ôl rheoli newidynnau eraill. Yr eithriadau i hyn oedd sgoriau incwm⁶⁴ a mynediad at wasanaethau WIMD. Fel y dangosir yn Ffigur 5.18, wrth i'r ardal fynd yn fwy amddifadus o ran incwm, mae cyfran y ddau fath o amddifadedd yn cynyddu.

Ffigur 5.18: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl sgôr incwm WIMD




Gan gadw popeth arall yn gyson, mae'r rhai sydd yn y ddau gwintel incwm mwyaf amddifadus (h.y. y 40% isaf) yn fwy tebygol o lawer o brofi amddifadedd penodol i blant mewn cymhariaeth â'r rhai sydd yn y cwintel lleiaf amddifadus. Mae'r rhai sydd yn y cwintel isaf (C1) yn fwy tebygol o brofi'r math hwn o amddifadedd (5 pwynt canran yn uwch na'r rhai lleiaf amddifadus), tra bod gan y rhai yn y cwintel mwyaf amddifadus ond un (C2) 3 pwynt canran o debygolrwydd uwch na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus. Nid oedd y berthynas rhwng lefelau eraill sgôr incwm WIMD ac amddifadedd penodol i blant, a rhwng sgôr incwm WIMD ac amddifadedd aelwydydd yn unig, yn arwyddocaol yn ystadegol.

Daw'r sgôr mynediad at wasanaethau WIMD o'r amser teithio ar gyfartaledd ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i'r: siop fwyd, meddygfa, swyddfa bost, llyfrgell

⁶⁴ Yn deillio o ganran y boblogaeth yn yr ardal sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, sy'n derbyn credydau treth gydag incwm 60% yn is na chanolrif Cymru, neu sy'n geisydd lloches a gefnogir.

gyhoeddus, canolfan hamdden, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, fferyllfa a gorsaf betrol agosaf (ar gyfer trafnidiaeth breifat).

Ffigur 5.19: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl sgôr mynediad at wasanaethau WIMD



Er na ragwelwyd y byddai'r mesur hwn yn berthnasol yn uniongyrchol i amddifadedd materol, wrth reoli ffactorau eraill, cafwyd perthynas sylweddol rhwng hyn ag amddifadedd materol aelwydydd â phlant. Yn benodol, canfuwyd perthynas arwyddocaol rhwng y cwintel canol (C3) ac amddifadedd materol penodol i blant. Ymhellach, gwelwyd bod y rhai yn C3 4 pwynt canran yn llai tebygol o brofi amddifadedd penodol i blant o'u cymharu â'r rhai yn y cwintel lleiaf amddifadus (C5). Mae hon yn berthynas ddiddorol ac anarferol a allai deilyngu rhagor o waith ymchwil.

5.5 Gofal plant, cymorth i rieni a mynediad at wasanaethau

5.5.1 Gofal plant

Er na chafodd ei gynnwys yn y dadansoddiadau atchweliad, archwiliwyd y berthynas rhwng amddifadedd materol aelwydydd â phlant a gofal plant yn gryno. Dywedodd oddeutu tri chwarter o aelwydydd eu bod yn defnyddio cyfeillion a theulu ar gyfer gofal plant (roedd hyn yn gyson dros bob lefel o amddifadedd). Yn ddiddorol, ymddengys mai ychydig o wahaniaeth oedd rhwng pa mor aml roedd ffrindiau neu deuluoedd ymatebwyr yn gofalu am eu plant (am ddim) yn ôl lefel amddifadedd materol. Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn defnyddio'r math hwn o ofal plant rhwng 1 a 30 awr yr wythnos (gyda chyfran uwch o'r rhai nad ydynt yn profi amddifadedd neu ddim ond amddifadedd ar yr aelwyd yn ei ddefnyddio am 1 - 10 awr (51% a 52% yn y drefn honno) a chyfran fwy o aelwydydd ag amddifadedd penodol i blant yn ei ddefnyddio am 10 - 30 awr (42%). Roedd y rhai a oedd yn profi amddifadedd penodol i blant yn fwy tebygol o fod â ffrindiau a theulu yn edrych ar ôl eu plant am ddim am dros 30 awr yr wythnos (13%). Er ei bod yn ymddangos bod y canlyniadau disgrifiadol hyn yn dangos rhywfaint o wahaniaeth wrth


ddefnyddio gofal plant am ddim, canfu dadansoddiad pellach nad oedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol (h.y. gallai fod yn ganlyniad hynodrwydd yn sampl yr arolwg).

Ymchwiliwyd hefyd i ba mor hawdd roedd ymatebwyr yn gallu fforddio gofal plant ffurfiol. Mae'n bosibl nad yw'n syndod bod y rhai a adroddodd am amddifadedd ar yr aelwyd neu amddifadedd penodol i blant yn ei chael hi'n anoddach fforddio gofal plant na'r rhai nad ydynt mewn amddifadedd ar yr aelwyd. Oherwydd meintiau bach y samplau, o bosibl, ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn fforddiadwyedd rhwng cyfran y rhai sy'n profi amddifadedd penodol i blant a'r rhai sy'n profi amddifadedd ar yr aelwyd yn unig.

5.5.2 Cymorth â llythrennedd a rhifedd

Holwyd rhieni am eu hyder wrth gefnogi addysg eu plant yn achos plant rhwng 3 ac 11 oed. Mae Ffigur 5.20 yn dangos hyder cyfartalog wedi ei rannu yn ôl amddifadedd, gyda sgôr uwch yn cynrychioli mwy o hyder i gefnogi dysgu. Mae'r holl wahaniaethau yn y ffigur yn sylweddol wahanol ar wahân i'r rhai rhwng y grwpiau amddifadedd materol o ran eu hyder wrth ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg. Yn gyffredinol, gwelodd y ddau faes cymorth hyn lefelau is o hyder ymysg rhieni na chynorthwyo â darllen ac ysgrifennu Saesneg neu Fathemateg.

Ffigur 5.20: Hyder rhieni yn eu gallu i gefnogi llythrennedd a rhifedd, yn ôl amddifadedd materol




5.5.3 Mynediad at y rhynggrwyd

Gellid gweld diffyg mynediad at y rhynggrwyd fel un o ganlyniadau amddifadedd materol, o ran methu â fforddio mynediad. Ar y llaw arall, gall diffyg mynediad at y rhynggrwyd waethygu amddifadedd materol. Mae'r ddadl dros hyn yn canolbwyntio ar y syniad o 'breimiwm tlodi'⁶⁵ lle mae'r aelwydydd hyn yn talu pris sy'n anghymesur fwy am nwyddau a gwasanaethau. Ymhellach, mae diwygio lles yn gwneud llythrennedd digidol a mynediad at y rhynggrwyd yn rheidrwydd, gan fod angen cynyddol i hawlio budd-daliadau ar-lein⁶⁶.

O ran aelwydydd sydd â phlant, roedd gan y rhai nad oedd ganddynt fynediad at y rhynggrwyd lefelau sylweddol uwch o amddifadedd materol na'r rhai oedd â mynediad at y rhynggrwyd (gweler Ffigur 5.21). O'r rhai heb fynediad at y rhynggrwyd, adroddodd 51% am amddifadedd materol ar yr aelwyd a 12% am amddifadedd penodol i blant. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau a adroddwyd ar gyfer y rhai heb fynediad at y rhynggrwyd (23% o amddifadedd ar yr aelwyd a 6% o amddifadedd penodol i blant).

Ffigur 5.21: Amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant, yn ôl mynediad at y rhynggrwyd



Roedd y berthynas hon yn parhau i fod yn arwyddocaol ar ôl rheoli newidynnau eraill, gyda diffyg mynediad yn arwain at gynnydd o 11 pwynt canran yn y tebygolrwydd a ragwelwyd o brofi amddifadedd materol ar yr aelwyd a chynnydd o 3 pwynt canran yn y tebygolrwydd o amddifadedd materol plant o gymharu hynny ag aelwydydd â mynediad at y rhynggrwyd.

⁶⁵ Gweler Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru (2015).

⁶⁶ Gweler dogfen Llywodraeth Cymru, Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Fframwaith strategol ar gyfer Cymru (2010) a Chynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Cynnydd Blyneddol (2015).


5.6 Crynodeb

Mae Ffigur 5.22 yn rhoi crynodeb o'r holl nodweddion sydd yn y dadansoddiad o aelwydydd â phlant. Mae'n ddiddorol nodi bod gan amddifadedd materol aelwydydd lai o ragfynegwyr ystadegol arwyddocaol nag amddifadedd penodol i blant, er bod rhagfynegwyr arwyddocâd ar gyfer amddifadedd aelwydydd hefyd yn gryfach na'r effaith o ran amddifadedd materol plant. Mae'r gwahaniaethau hyn yng nghryfder y berthynas rhwng y newidynnau esboniadol a lefelau'r amddifadedd materol yn nodi gwahaniaethau lle mae gan y nodweddion y dylanwad mwyaf ar y ddau fath o amddifadedd. Nid yw'n syndod nodi bod y ffactorau hynny sy'n rhagfynegi amddifadedd materol aelwydydd hefyd yn rhagweld amddifadedd penodol i blant, gan fod y cyntaf yn agwedd ar yr olaf. Fodd bynnag, mae nifer o newidynnau sy'n rhagfynegi amddifadedd penodol i blant, ond nid amddifadedd aelwydydd. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod amddifadedd penodol i blant yn lefel ychwanegol o amddifadedd, yn ychwanegol at amddifadedd materol aelwydydd.

Wrth gymharu'r canlyniadau yma â'r rhai yn Ffigur 4.20, sy'n crynhoi'r canlyniadau o'r ymchwiliad gyda'r holl aelwydydd gyda'i gilydd, gallwn weld bod y nodweddion a'u heffeithiau yn debyg yn fras. Mae gan ddaliadaeth tai rôl bwysig iawn o hyd, gyda thai cymdeithasol yn cael yr effaith gryfaf ar aelwydydd. Un peth o ddiddordeb yw absenoldeb aelwydydd un rhiant yn

Ffigur 5.22. Er bod y nodwedd hon wedi bod yn arwyddocaol ar gyfer rhagfynegi amddifadedd ar yr aelwyd, nid yw'n arwyddocaol ar gyfer rhagfynegi amddifadedd ar yr aelwyd mewn aelwydydd sydd â phlant. Mae hyn yn awgrymu bod y nodweddion eraill a gynhwysir yn y model yn ffordd well o ragfynegi amddifadedd materol ar gyfer y grwpiau hyn, yn hytrach na bod y nodwedd hon yn bwysig.

Ffigur 5.22: Effaith fwyaf newidynnau ar amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant



6 Casgliadau

Nid oedd mwyafrif yr aelwydydd yn mynd heb unrhyw un o'r eitemau amddifadedd materol oherwydd diffyg fforddiadwyedd. O'r aelwydydd a ddosbarthwyd fel rhai yn y cwintel mwyaf amddifadus, gwelwyd bod sawl nodwedd ar draws y prif bynciau yn ddiddorol ac yn bwysig wrth egluro amddifadedd materol. Canfu'r dadansoddiad fod nodweddion yr unigolyn a'r bobl eraill ar yr aelwyd yn bwysig wrth egluro amddifadedd materol.

Canfuwyd bod nodweddion unigol i egluro amddifadedd yn cynnwys oedran, iechyd, cymwysterau a rhyw. Mae'r gwahaniaethau rhwng rhyw lle'r oedd menywod yn fwy tebygol o brofi amddifadedd, yn amlygu materion yn ymwneud â natur yr arolwg. Mae'r arolwg yn gasgliad o nodweddion hunan-adrodd, ac felly yn hytrach na bod gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y rhywiau o ran y tebygolrwydd o brofi amddifadedd, gallai hyn adlewyrchu gwahaniaeth rhwng y rhywiau o ran y tebygolrwydd o adrodd am brofiad o amddifadedd.

Mewn rhai achosion, fel statws gweithio, roedd nodweddion lefel aelwydydd yn well rhagfynegwyr o amddifadedd na nodweddion unigol. Mae rhagdybiaeth gyda'r mesur amddifadedd materol fod pawb ar yr aelwyd yn teimlo amddifadedd yr un fath â'i gilydd⁶⁷. Mae'r ffaith bod achosion lle mae nodweddion aelwydydd yn well na nodweddion unigol wrth esbonio amddifadedd yn cefnogi'r rhagdybiaeth hon.

Yn ddiddorol, ymddengys nad yw nodweddion ar lefel ardal yn cael fawr o ddylanwad ar amddifadedd materol yn y modelau a luniwyd. Er ei bod yn ymddangos bod gwahaniaethau arwyddocaol o ran cyfrannau, roedd y dadansoddiad yn caniatáu i nodweddion eraill gael eu hystyried a oedd yn rhagfynegwyr mwy pwerus na'r ardal. Mae hyn yn gwneud synnwyr sythweledol: y ffordd orau o ddeall amddifadedd aelwydydd yw nodweddion yr aelwyd benodol honno a'r unigolion sy'n ei ffurfio.

Ar y cyfan, ymddengys bod ymatebwyr â phlant dibynnol sy'n byw yn yr aelwyd yn eu hamddiffyn rhag profiad o amddifadedd materol penodol i blant. Er y bydd plant sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol yn sicr o gael eu heffeithio gan yr amddifadedd hwn i ryw raddau, dengys y dadansoddiad nad yw plant y mwyafrif helaeth o'r aelwydydd hyn yn brin o'r eitemau yn y set o gwestiynau.

Yn yr un modd ag amddifadedd cyffredinol aelwydydd, roedd gan aelwydydd sydd â phlant amrywiaeth o nodweddion ar lefel unigol, yr aelwyd a'r ardal y gwelwyd eu bod yn bwysig wrth egluro amddifadedd. Yn gyffredinol, roedd y nodweddion hyn yn debyg i'r rhai ar gyfer aelwydydd heb blant. Cysyniadwyd amddifadedd materol penodol i blant fel rhywbeth sy'n cynnwys eitemau aelwydydd ac eitemau penodol i blant. Mae'n bosibl nad yw'n syndod felly bod nifer fwy o nodweddion yn bwysig i esbonio'r math penodol hwn o amddifadedd; po fwyaf cymhleth yw'r amddifadedd, y mwyaf cymhleth yw'r ffordd o'i

⁶⁷ Hick, R. (2015). Material poverty and multiple deprivation in Britain: The distinctiveness and multidimensional assessment. *Journal of Public Policy*

esbonio drwy nodweddion eraill. Roedd y dadansoddiad yn caniatáu i'r ddau fath o amddifadedd y gallai teuluoedd â phlant ei brofi gael eu deall ar yr un pryd, ac fel bod modd llunio cymariaethau yn sgil hynny. Er bod llawer mwy o newidynnau yn fodd o ddeall amddifadedd materol penodol i blant orau, yn hytrach nag amddifadedd ar yr aelwyd yn unig, roedd y newidynnau ychwanegol hyn yn cael effeithiau llai o faint ar y tebygolrwydd o brofi amddifadedd penodol i blant.

Yn achos amddifadedd materol plant ac ar yr aelwyd, yr hynaf oedd yr ymatebydd, y lleiaf tebygol oedd o brofi amddifadedd. Yn hytrach nag awgrymu bod pobl hŷn yn llai tebygol o brofi amddifadedd, esboniad arall yw nad yw'r mesurau amddifadedd materol a ddefnyddir yma yn ddigonol i grynhoi'r math o amddifadedd y mae pobl hŷn yn ei brofi. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn mewn datblygiadau yn yr Arolwg Cenedlaethol a'r Arolwg o Adnoddau Teuluol, sydd bellach yn cynnwys modiwl amddifadedd materol penodol i bensiynwr. Yn yr un modd, ymddengys bod cael plentyn dan 5 oed yn lleihau'r tebygolrwydd o brofi amddifadedd penodol i blant yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod hyn yn arteffact o'r dangosyddion eu hunain yn hytrach na natur unigryw'r grŵp hwn. Nid yw pob dangosydd yn berthnasol i bob aelwyd yn yr un modd â'i gilydd. Mae hyn yn wir am fesurau aelwydydd, lle na fydd y rhai mewn llety rhent (sy'n fwy tebygol o fod mewn amddifadedd na pherchen-feddianwyr) o bosibl yn gyfrifol am nwyddau trydanol, dodrefn neu addurno. Canlyniad hyn yw bod amddifadedd yr aelwydydd hyn yn cael ei danamcangyfrif mewn gwirionedd. Mae'r math hwn o fater yn fwy perthnasol byth i ddangosyddion penodol i blant. Mae'r dangosyddion sy'n benodol i blant yn berthnasol i wahanol oedrannau, fel bod plant oedran ysgol gynradd yn fwy tebygol o gael eu cyfrif fel sy'n profi amddifadedd materol na rhai o oedrannau gwahanol. Roedd y dull dadansoddol a ddefnyddiwyd yn ceisio ystyried hyn, ac mae'n ymddangos ei fod yn lliniaru rhywfaint ar ei effaith. Cyflwynwyd trafodaeth fwy cyflawn ar oblygiadau hyn yn yr adran fethodoleg (gweler adran 2.2.2).⁶⁸

Mae'r adroddiad hwn wedi ceisio cyfleu natur gymhleth amddifadedd materol o fewn ac ymhlith gwahanol aelwydydd. Y mae wedi defnyddio'r cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael yn Arolwg Cenedlaethol 2014-15 i ddeall natur a nodweddion amddifadedd materol yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi bod unrhyw berthynas a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn gysylltiadau yn hytrach nag achos ac effaith. Mae dadansoddiad trawstoriadol o'r fath yn ddefnyddiol wrth ddisgrifio ac ymchwilio i gysylltiadau, ond ni allwn honni bod y nodweddion y canfuwyd eu bod yn bwysig yn achosi amddifadedd materol yn seiliedig ar y canlyniadau a gyflwynir yn unig. Yn hytrach, mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth i ganfod sut mae nodweddion unigolion, aelwydydd ac ardaloedd yn cyfuno ac yn rhyngweithio, er mwyn deall mater cymhleth a phwysig amddifadedd materol yn well.

⁶⁸ Gellid defnyddio theori ymateb i eitemau fel dewis arall i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn i wneud hyn, byddai hwn yn faes diddorol a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith pellach.

Cyfeiriadau

- Gordon, D., Levitas, R., Pantazis, C., Patsios, D., Payne, S., Townsend, P., ... & Williams, J. (2000). *Poverty and social exclusion in Britain*. York: Joseph Rowntree Foundation.
- Hanson, T. & Sullivan, S. (2015). Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Adroddiad Technegol. <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151005-national-survey-2014-15-technical-report-en.pdf>
- Hick, R. (2015). Material poverty and multiple deprivation in Britain: The distinctiveness and multidimensional assessment. *Journal of Public Policy*
- Hosmer, D. W., & Lemeshow, S., (2000). *Applied Logistic Regression*. 2nd ed. New York: Wiley.
- Long, J. S., & Freese, J.(2006). *Regression Models for Categorical Dependent Variables Using Stata*. College Station, TX: Stata Press.
- McKay, S. (2008). *Measuring material deprivation among older people: Methodological study to revise the Family Resources Survey questions*. Yr Adran Gwaith a Phensiynau (papur gwaith 54).
- McKay, S. and Collard, S. (2004). *Developing deprivation questions for the Family Resources Survey*. Llundain: Papur Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau Rhif. 13.
- Pantazis, C., Gordon, D. a Levitas, R. (2006). *Poverty and Social Exclusion in Britain*. Bryste: The Policy Press.
- Llywodraeth Cymru. *Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Fframwaith strategol ar gyfer Cymru (2010) a Chynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol: Cynnydd Blynnyddol (2015)*.
- Whelan, C. T. and B. Maître (2012), 'Identifying childhood deprivation: How well do national indicators of poverty and social exclusion in Ireland perform?', *Economic and Social Review*, 43: 2, tt. 251 - 272.

Atodiad 1: Tablau amddifadedd materol aelwydydd

Tabl A1.6.1: Cyfernodau atchweliad amddifadedd materol aelwydydd

Newidyn		Cyfyngau hyder			c
		b	b ffin isaf	b ffin uchaf	
Rhyw	Gwryw				
	Benyw	0.444748	0.3061755	0.5833202	<0.001
	16-24				
Oedran	24-44	0.5884828	0.338567	0.8283986	<0.001
	45-64	0.2630288	-0.0156499	0.5417074	0.064
	65-74	-0.201115	-0.6222144	0.2199844	0.349
	75+ oed	-1.1307	-1.669608	-0.5917926	<0.001
	Lefelau 4-8 y Fframwaith				
Cymhwyster uchaf	Lefel 3 y Fframwaith	0.39660329	0.1894157	0.6037908	0.002
	Lefel 2 y Fframwaith	0.54123067	0.3538718	0.7285897	<0.001
	< Lefel 2 y Fframwaith	0.72377483	0.4909023	0.9566476	<0.001
	Dim cymwysterau	0.88913616	0.662422	1.11203	<0.001
	Priod/Partneriaeth				
Statws priodasol	Wedi gwahanu/wedi ysgaru	0.87201235	0.6909481	1.053076	<0.001
	Sengl	0.30332237	0.1223771	0.4842676	0.001
	Gweddw/goroeswr	0.30523069	0.52844	0.5576181	0.018
Aelwyd pobl wedi ymddeol	Heb ymddeol				
	Wedi ymddeol	-0.82643357	-1.195089	-0.4577784	<0.001
Rhiant sengl	Ddim yn rhiant sengl				
	Rhiant sengl	0.37268706	0.1391499	0.6062238	0.002
Plant	Dim plant				
	Pob plentyn ychwanegol	0.23176389	0.1483286	0.3151991	<0.001
	yn eiddo i berchen-feddianwyr				
Daliadaeth tai	Tai cymdeithasol	1.19067751	1.015338	1.366017	<0.001
	Rhentu preifat	0.98813872	0.8063561	1.169922	<0.001
Iechyd cyffredinol	Da/teg				

Newidyn		Cyfyngau hyder			
		<i>b</i>	<i>b</i> ffin isaf	<i>b</i> ffin uchaf	<i>c</i>
	Gwael	0.33981165	0.124722	0.5549014	0.002
Salwch cyfyngus hirdymor	<i>Dim salwch cyfyngus hirdymor</i>				
	Salwch cyfyngus hirdymor	0.56053479	0.3941183	0.7269512	<0.001
	<i>Pawb yn gweithio</i>				
	Rhai'n gweithio	0.47437593	0.4743759	0.6586965	<0.001
Statws gwaith yr aelwyd	Neb yn gweithio	0.77198285	0.7719826	0.9631673	<0.001
	Neb rhwng 16 ac 19 oed (ddim mewn addysg lawn amser) na rhwng 19 a 64 oed ar yr aelwyd	0.47480334	0.4748032	0.9803227	0.066
	<i>C5 20% lleiaf amddifadus</i>				
	C4	0.25201008	0.0074418	0.496578	0.043
Sgôr incwm WIMD	C3	0.44422033	0.2168857	0.6715546	<0.001
	C2	0.64578457	0.4210484	0.8705212	<0.001
	C1 20% mwyaf amddifadus	0.66081095	0.422138	0.8994839	<0.001
	<i>Mynediad</i>				
Mynediad at y rhynggrwyd	Dim mynediad	0.42578851	0.2330741	0.6185027	0.001
<i>Cysonyn</i>		-5.05629711	-5.563807	-4.548788	<0.001

Tabl A1.6.2: Newid ym mhwynt canran amddifadedd materol aelwydydd

Newidyn		Newid yn y pwynt canran	Cyfngau hyder		c
			Ffin isaf	Ffin uchaf	
Rhyw	<i>Gwryw</i>				
	Benyw	5.56833	3.86007	7.27658	<0.001
	<i>16-24</i>				
Oedran	25-44	7.91421	4.75773	11.0707	<0.001
	45-64	3.32033	-0.09524	6.7359	0.057
	65-74	-2.30113	-7.10632	2.50405	0.348
	75+ oed	-10.41156	-14.96842	-5.85471	<0.001
Cymhwyster uchaf	<i>Lefelau 4-8 y Fframwaith</i>				
	Lefel 3 y Fframwaith	4.64079	2.16145	7.12012	<0.001
	Lefel 2 y Fframwaith	6.53638	4.23764	8.83511	<0.001
	< Lefel 2 y Fframwaith	9.08258	5.95781	12.20735	<0.001
	Dim cymwysterau	11.53356	8.4169	14.65021	<0.001
Statws priodasol	<i>Priod/Partneriaeth</i>				
	Wedi gwahanu/wedi ysgaru	12.04111	9.31995	14.76228	<0.001
	Sengl	3.75471	1.48019	6.02924	0.001
Aelwyd pobl wedi ymddeol	Gweddw/goroeswr	3.77983	0.5103	0.0704935	0.023
	<i>Heb ymddeol</i>				
Rhiant sengl	Aelwyd pobl wedi ymddeol	-9.31578	-13.03831	-5.59324	<0.001
	<i>Ddim yn rhiant sengl</i>				
Nifer y plant	Rhiant sengl	5.00593	1.65428	8.35758	0.003
	<i>Dim plant</i>				
Daliadaeth tai	Pob plentyn ychwanegol	2.8998	1.86822	393138	<0.001
	<i>yn eiddo i berchen-feddianwyr</i>				
	Tai cymdeithasol	17.50747	14.5167	2049824	<0.001
Iechyd cyffredinol	Rhentu preifat	13.95096	11.07489	16.82703	<0.001
	<i>Gweddol-da</i>				
	Gwael	4.5151	1.49129	7.5389	0.003

Newidyn		Newid yn y pwynt canran	Cyfyngau hyder		
			Ffin isaf	Ffin uchaf	c
Salwch cyfyngus hirdymor	<i>Dim salwch cyfyngus hirdymor</i>				
	Salwch cyfyngus hirdymor	7.52806	5.15962	9.8965	<0.001
	<i>Pawb yn gweithio</i>				
Statws gwaith yr aelwyd	Rhai'n gweithio	6.02032	3.55003	8.49062	<0.001
	Neb yn gweithio	10.37793	7.61475	13.14111	<0.001
	Neb o oedran gweithio	6.02627	-0.80369	12.85622	0.084
	<i>C5 20% lleiaf amddifadus</i>				
	C4	2.8482	0.08817	5.60824	0.043
Sgôr incwm WIMD	C3	5.24073	2.60153	7.87994	<0.001
	C2	7.955	5.24555	10.66445	<0.001
	C1 20% mwyaf amddifadus	8.1657	5.23005	11.10135	<0.001
Mynediad at y rhynggrwyd	<i>Mynediad at y rhynggrwyd</i>				
	Dim mynediad at y rhynggrwyd	5.68961	2.96024	8.41898	<0.001

Atodiad 2: Tablau amddifadedd materol aelwydydd sydd â phlant

Tabl A2.0.1: Cyfrannedd aelwydydd â phlant

Newidyn		<u>Amddifadedd aelwyd</u>			<u>Amddifadedd yn benodol i blant</u>		
		%	Cyfyngau hyder		%	Cyfyngau hyder	
			Uchaf	Isaf		Uchaf	Isaf
Oedran	16-24	44.12	35.56	53.05	8.89	5.19	14.81
	25-44	25.69	23.74	27.74	7.33	6.23	8.6
	45-64	18.91	16.19	21.97	6.51	4.9	8.62
	65+ oed	21.48	8.72	43.95	1.54	0.21	10.28
Rhyw	Gwryw	18.34	15.98	20.96	4.35	3.18	5.92
	Benyw	29.19	27.11	31.36	9.11	7.85	10.55
Iechyd cyffredinol	Da/teg	23.9	22.28	25.59	5.95	5.13	6.89
	Gwael	38.17	29.97	47.1	30.32	22.29	39.77
Salwch cyfyngus hirdymor	Dim salwch cyfyngus hirdymor	22.63	20.94	24.42	5.17	4.35	6.14
	Salwch cyfyngus hirdymor	34.39	30.07	38.99	15.98	12.75	19.86
Cymhwyster uchaf	Lefelau 4-8 y Fframwaith	13.9	11.94	16.11	2.9	2.01	4.17
	Lefel 3 y Fframwaith	25.76	22.21	29.66	5.58	4.03	7.68
	Lefel 2 y Fframwaith	29.78	26.02	33.82	8.93	6.8	11.64
	< Lefel 2 y Fframwaith	36.01	30.32	42.12	11.62	8.38	15.91
	Dim cymwysterau	40.39	34.26	46.84	17.31	12.82	22.95
	Priod/partneriaeth	17.69	15.81	19.73	3.74	2.84	4.89
Statws priodasol	Wedi ysgaru/wedi gwahanu	35.96	30.67	41.63	17.88	13.63	23.08
	Sengl	35.84	32.61	39.2	10.63	8.76	12.84
	Gweddw/goroeswr	25.56	15.23	39.63	12.91	4.92	29.81
Nifer y plant	1 plentyn	24.36	26.91	21.98	5.81	7.27	4.64
	2 plentyn	23.00	25.56	20.66	6.63	8.36	5.24
	3+ o blant	29.00	34.01	25.13	11.94	1.52	9.30
Plentyn dan 5 oed	Dim plant dan 5 oed	22.25	20.24	24.39	7.65	6.41	9.09
	Plentyn/plant dan 5 oed	27.95	25.42	30.64	6.32	5.08	7.84
Daliadaeth tai	Perchen-feddiannydd	14.21	12.61	15.97	3.33	2.51	4.42
	Tai cymdeithasol	46.81	42.44	51.23	17.78	14.73	21.31

Newidyn		<u>Amddifadedd aelwyd</u>			<u>Amddifadedd yn benodol i blant</u>		
		Cyfyngau hyder			Cyfyngau hyder		
		%	Uchaf	Isaf	%	Uchaf	Isaf
Gweithgarwch economaidd	Rhentu preifat	39.31	35.12	43.66	10	7.78	12.76
	Cyflogaeth	19.74	18.05	21.55	3.82	3.09	4.71
	Di-waith	41.99	33.87	50.57	20.46	14.31	28.39
	Anweithgar yn Economaidd	38.5	34.49	42.67	16.17	13.24	19.6
Statws gwaith yr aelwyd	Pawb yn gweithio	18.77	17	20.69	3.46	2.73	4.36
	Rhai'n gweithio	26.97	23.48	30.76	8.19	6.16	10.82
	Neb yn gweithio	50.41	45.18	55.63	23.8	19.62	28.55
	Neb o oedran gweithio	7.9	1.07	40.34	9.55	1.32	45.44
Awdurdodau lleol	Ynys Môn	23.16	17.17	30.47	3.21	1.24	8.09
	Gwynedd	20.92	14.65	28.96	3.55	1.31	9.25
	Conwy	21.3	14.8	29.66	7.42	3.92	13.58
	Sir Ddinbych	24.48	17.99	32.39	6.66	3.66	11.84
	Sir y Fflint	21.36	15.73	28.34	5.52	3.04	9.83
	Wrecsam	35.13	28.38	42.52	8.06	4.92	12.97
	Ceredigion	19.15	12.61	27.98	5.45	2.45	11.7
	Powys	25.41	18.58	33.71	3.01	1.15	7.61
	Sir Benfro	32.82	25.56	41	3.6	1.51	8.36
	Sir Gaerfyrddin	26.64	19.76	34.87	4.87	2.02	11.27
	Abertawe	29.19	22.03	37.54	7.05	3.85	12.57
	Castell-nedd Port Talbot	24.42	17.94	32.33	4.81	2.52	8.97
	Pen-y-bont ar Ogwr	25.5	19.56	32.51	9.5	5.43	16.08
	Bro Morgannwg	23.32	17.05	31.03	4.61	2.44	8.56
	Caerdydd	23.09	17.25	30.19	8.23	5.17	12.85
	Rhondda Cynon Taf	21.92	16.29	28.84	11.06	7.14	16.74
	Merthyr Tudful	26.68	20.84	33.46	7.19	4.13	12.25
	Caerffili	26.72	19.68	35.18	10.02	6.04	16.16
	Blaenau Gwent	26.33	19.02	35.23	13.87	8.74	21.31
	Torfaen	29.92	23.27	37.54	8	4.66	13.41

Newidyn		<u>Amddifadedd aelwyd</u>			<u>Amddifadedd yn benodol i blant</u>		
		%	Cyfyngau hyder		%	Cyfyngau hyder	
			Uchaf	Isaf		Uchaf	Isaf
Ardal drefol/gwledig	Sir Fynwy	15.51	10.64	22.06	4.56	2.37	8.69
	Casnewydd	18	12.93	24.51	9.71	5.68	16.12
	Trefol	25.75	23.85	27.75	8.01	6.91	9.27
	Gwledig	21.11	18.41	24.09	4.32	2.98	6.21
Cymunedau yn Gyntaf	Nid Cymunedau yn Gyntaf	21.9	20.14	23.76	5.33	4.44	6.38
	Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf	32.89	29.4	36.59	12.53	10.18	15.32
Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	Nid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	26.62	20.82	33.35	14.54	9.72	21.19
	Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	24.47	22.83	26.2	6.63	5.73	7.66
Sgôr incwm WIMD	C5 20% lleiaf amddifadus	14.7	11.8	18.17	1.76	0.98	3.15
	C4	17.65	14.55	21.24	4.65	3.22	6.65
	C3	23.22	20.03	26.75	5.91	4.24	8.17
	C2	32.39	28.68	36.33	8.16	6.1	10.83
	C1 20% mwyaf amddifadus	33.19	29.26	37.37	14.31	11.59	17.53
	C5 20% lleiaf amddifadus	24.41	20.61	28.73	7.89	5.75	10.74
Sgôr mynediad at wasanaethau WIMD	C4	26.59	22.94	30.59	8.9	6.7	11.72
	C3	24.14	20.68	27.96	4.49	3.06	6.53
	C2	26.73	23.31	30.46	7.91	6.08	10.23
	C1 20% mwyaf amddifadus	21.02	18.1	24.27	6.56	4.71	9.05
Aelwyd â mynediad at y rhyngwrwyd	Mynediad at y rhyngwrwyd	23.22	21.62	24.91	6.5	5.6	7.54
	Dim mynediad at y rhyngwrwyd	50.75	42.71	58.75	16.64	11.75	23.05

Tabl A2.0.2: Mae aelwydydd â hyder rhwng rhieni a phlant yn golygu

		<u>Dim amddifadedd materol</u>			<u>Amddifadedd materol aelwydydd</u>			<u>Amddifadedd materol yn benodol i blant</u>		
		Cyfyngau hyder			Cyfyngau hyder			Cyfyngau hyder		
		Cymedr	Uchaf	Isaf	Cymedr	Uchaf	Isaf	Cymedr	Uchaf	Isaf
Hyder rhieni	Darllen Saesneg	3.794071	3.760151	3.827992	3.681095	3.614165	3.748026	3.42133	3.267725	3.574935
	Ysgrifennu Saesneg	3.746671	3.709318	3.784024	3.619195	3.54685	3.691541	3.375744	3.22205	3.529438
	Yn darllen Cymraeg	2.022441	1.947993	2.096889	1.750621	1.652785	1.848457	1.628	1.44625	1.80975
	Ysgrifennu Cymraeg	1.87394	1.802401	1.94548	1.626365	1.531229	1.721501	1.447822	1.295132	1.600511
	Mathemateg	3.555419	3.511952	3.598886	3.369137	3.289821	3.448452	3.057176	2.879213	3.235138

Tabl A2.0.3: Cyfernodau atchweliad amddifadedd materol aelwydydd

		<u>Amddifadedd aelwyd</u>				<u>Amddifadedd yn benodol i blant</u>			
		Cyfyngau hyder				Cyfyngau hyder			
Newidyn		<i>b</i>	<i>b isaf</i>	<i>b uchaf</i>	<i>c</i>	<i>b</i>	<i>b isaf</i>	<i>b uchaf</i>	<i>c</i>
Rhyw	Gwryw								
	Benyw	0.5225886	0.2921195	0.7530578	<0.001	0.7384126	0.3056484	1.171177	0.001
	16-24								
Oedran	25-44	0.0667657	-0.4371687	0.5707002	0.795	0.1770319	-0.6508375	1.004901	0.675
	45-64	-	-0.7305615	0.4257678	0.606	-0.0335572	-0.9709931	0.9038786	0.944
	65+ oed	0.1523468	-1.214058	1.090724	0.916	-14.29802	-15.39331	-13.20272	<0.001
Cymhwyster uchaf	Lefelau 4-8 y Fframwaith	0.0616671							
	Lefel 3 y Fframwaith	0.4602177	0.1640279	0.7564074	0.002	0.3846826	-0.1605357	0.9299008	0.167
	Lefel 2 y Fframwaith	0.6307838	0.3427087	0.9188588	<0.001	0.7211894	0.1848501	1.257529	0.008
	< Lefel 2 y Fframwaith	0.7722178	0.3941516	1.150284	<0.001	0.8706763	0.2800385	1.461314	0.004
	Dim cymwysterau	0.7414342	0.3353068	1.147562	<0.001	0.7534736	0.076937	1.43001	0.029
Statws priodasol	Priod/partneriaeth								
	Wedi gwahanu/wedi	0.6769549	0.337778	1.016132	<0.001	1.30169	0.7798758	1.823505	<0.001

		<u>Amddifadedd aelwyd</u>				<u>Amddifadedd yn benodol i blant</u>			
		Cyfyngau hyder				Cyfyngau hyder			
Newidyn		<i>b</i>	<i>b isaf</i>	<i>b uchaf</i>	<i>c</i>	<i>b</i>	<i>b isaf</i>	<i>b uchaf</i>	<i>c</i>
	ysgaru								1
	Sengl	0.2504291	-0.0074119	0.5082702	0.057	0.7439903	0.2777804	1.2102	0.002
	Gweddw/goroeswr	0.1047095	-0.7281801	0.9375991	0.805	0.8371882	-0.2750449	1.949421	0.14
Plentyn dan 5 oed	<i>Dim plant dan 5 oed</i>								
	Plentyn/plant dan 5 oed	0.0215366	-0.2197078	0.262781	0.861	-0.6309595	-1.036988	-0.2249312	0.002
Nifer y plant dibynnol	<i>1 plentyn</i>								
	Pob plentyn ychwanegol	0.0842721	-0.0382746	0.2068188	0.178	0.4080214	0.2407285	0.5753141	<0.001
	<i>Perchen-feddiannydd</i>								
Daliadaeth tai	Tai cymdeithasol	1.18044	0.8732109	1.48767	<0.001	0.925087	0.453244	1.39693	<0.001
	Rhentu preifat	1.067805	0.7895517	1.346059	<0.001	0.8499597	0.3718724	1.328047	<0.001
	<i>Da/teg</i>								
Iechyd	Gwael	0.4771268	-0.0940695	1.048323	0.102	1.073899	0.339479	1.808318	0.004
	<i>Dim salwch cyfyngus hirdymor</i>								
Salwch cyfyngus hirdymor	Salwch cyfyngus hirdymor	0.3620838	0.0664723	0.6576953	0.016	0.6393637	0.1931193	1.085608	0.005
	<i>Pawb yn gweithio</i>								
Statws gwaith yr aelwyd	Rhai'n gweithio	0.1646726	-0.0903727	0.4197179	0.206	0.5909452	0.1298517	1.052039	0.012
	Neb yn gweithio	0.7727213	0.4058869	1.139556	<0.001	1.403976	0.88763	1.920322	<0.001
	Neb o oedran gweithio	-1.808683	-4.077009	0.4596421	0.118	13.85291	10.94994	16.75589	<0.001
	<i>C5 20% lleiaf amddifadus</i>								
Sgôr incwm WIMD	C4	0.0701768	-0.3046789	0.4450324	0.718	0.7306896	-0.0357116	1.497091	0.062
	C3	0.1608522	-0.1858339	0.5075383	0.363	0.6542522	-0.1045095	1.413014	0.091
	C2	0.3913922	0.0413697	0.7414146	0.028	0.9016791	0.1633702	1.639988	0.017
	C1 20% mwyaf amddifadus	0.2561441	-0.1209909	0.6332791	0.183	1.095659	0.349686	1.841631	0.004
Mynediad at y	<i>Mynediad at y rhyngrwyd</i>								

Newidyn		<u>Amddifadedd aelwyd</u>				<u>Amddifadedd yn benodol i blant</u>			
		Cyfyngau hyder				Cyfyngau hyder			
		<i>b</i>	<i>b isaf</i>	<i>b uchaf</i>	<i>c</i>	<i>b</i>	<i>b isaf</i>	<i>b uchaf</i>	<i>c</i>
rhynggrwyd	Dim mynediad at y rhynggrwyd <i>C5 20% lleiaf amddifadus</i>	0.7919416	0.2807705	1.303113	0.002	0.8347599	0.1475126	1.522007	0.017
Sgôr mynediad at wasanaethau WIMD	C4	-0.0495071	-0.3918489	0.2928347	0.777	-0.0783242	-0.6193453	0.4626969	0.777
	C3	-0.1587783	-0.4984127	0.1808561	0.36	-0.8303802	-1.425358	-0.235402	0.006
	C2	-0.0498886	-0.3927909	0.2930137	0.776	-0.3157084	-0.8307484	0.1993317	0.23
	C1 20% mwyaf amddifadus	-0.1582877	-0.4920581	0.1754826	0.242	-0.2159699	-0.8263666	0.3944329	0.488
<i>Cysonyn</i>		-2.862956	-3.565781	-2.16013	<0.001	-5.821296	-7.169506	-4.473087	<0.001

Tabl A2.0.4: Newidiadau ym mhwyntiau canran aelwydydd â phlant

Newidyn		<u>Amddifadedd materol aelwydydd</u>				<u>Amddifadedd materol yn benodol i blant</u>			
		Cyfyngau hyder				Cyfyngau hyder			
		Newid yn y pwynt canran	Ffin isaf	Ffin uchaf	<i>c</i>	Newid yn y pwynt canran	Ffin isaf	Ffin uchaf	<i>c</i>
Rhyw	<i>Gwryw</i>								
	Benyw	0.0631109	0.0294236	0.0967983	<0.001	0.025438	0.0051692	0.0457068	0.014
Oedran	<i>16-24</i>								
	25-44	0.005907	-0.0665544	0.0783684	0.873	0.0077384	-0.0308583	0.0463352	0.694
	45-64	-0.0224407	-0.1050465	0.060165	0.594	0.0020526	-0.0419088	0.0460141	0.927
	65+ oed	0.0244312	-0.1473547	0.1962171	0.78	-0.064708	-0.1022869	-0.0271291	0.001
Cymhwyster uchaf	<i>Lefelau 4-8 y Fframwaith</i>								
	Lefel 3 y Fframwaith	0.061467	0.0166015	0.1063326	0.007	0.008802	-0.0166712	0.0342751	0.498
	Lefel 2 y Fframwaith	0.0815384	0.0363467	0.1265301	<0.001	0.0232651	-0.0042052	0.0507354	0.097
	< Lefel 2 y Fframwaith	0.1021095	0.0404941	0.163725	0.001	0.0283486	-0.0027726	0.0594699	0.074
	Dim cymwysterau	0.1002307	0.0341554	0.1663059	0.003	0.0218857	-0.0130164	0.0567879	0.219
Statws priodasol	<i>Priod/Partneriaeth</i>								
	Wedi ysgaru/wedi wahanu	0.0768142	0.0190975	0.1345309	0.009	0.0594911	0.0245757	0.0944066	0.001
	Sengl	0.021706	-0.0183268	0.0617388	0.288	0.0332963	0.0090798	0.0575128	0.007

		<u>Amddifadedd materol aelwydydd</u>				<u>Amddifadedd materol yn benodol i blant</u>			
		Cyfyngau hyder				Cyfyngau hyder			
Newidyn		Newid yn y pwynt canran	Ffin isaf	Ffin uchaf	c	Newid yn y pwynt canran	Ffin isaf	Ffin uchaf	c
Plentyn dan 5 oed	Gwedd/goroeswr	-0.0043958	-0.1314908	0.1226993	0.946	0.0441435	-0.0333942	0.01216812	0.264
	<i>Dim plant dan 5 oed</i>								
Nifer y plant	Plentyn/plant dan 5 oed	0.0200796	-0.0157623	0.0559215	0.272	-0.0339951	-0.054275	-0.0137152	0.001
	<i>1 plentyn</i>								
Daliadaeth tai	Pob plentyn ychwanegol	0.0023369	-0.0154446	0.0201184	0.797	0.0199418	0.0114898	0.0283938	<0.001
	<i>Perchen-feddiannydd</i>								
Iechyd cyffredinol	Tai cymdeithasol	0.1866263	0.1279708	0.2452818	<0.001	0.0224435	-0.0032828	0.0481698	0.087
	Rhentu preifat	0.1653299	0.11377	0.2168898	<0.001	0.021493	-0.0051489	0.0481349	0.114
Salwch cyfyngus hirdymor	<i>Da/teg</i>								
	Gwael	0.0431588	-0.0463461	0.1326637	0.345	0.0590762	0.0027602	0.1153922	0.04
Statws gwaith yr aelwyd	<i>Dim salwch cyfyngus irdymor</i>								
	Salwch cyfyngus hirdymor	0.0407507	-0.0063835	0.087885	0.09	0.0277066	0.0005641	0.0528491	0.045
Sgôr incwm WIMD	<i>Pawb yn gweithio</i>								
	Rhai'n gweithio	0.0131175	-0.264934	0.0527284	0.516	0.0267609	0.0021565	0.0513653	0.033
	Neb yn gweithio	0.0930302	0.0293222	0.1597381	0.004	0.0662995	0.0293688	0.1032301	<0.001
	Neb o oedran gweithio	-0.2342434	-0.2565565	-0.2119303	<0.001	0.9407129	0.927938	0.9534878	<0.001
	<i>C5 20% lleiaf amddifadus</i>								
	C4	-0.0040899	-0.0597528	0.0515729	0.885	0.0302291	-0.0011526	0.0616109	0.059
	C3	0.011718	-0.0406861	0.0641222	0.661	0.0239703	-0.0054413	0.053382	0.11
	C2	0.0429201	-0.0113319	0.0971721	0.121	0.0312695	0.0019245	0.0606145	0.037
Mynediad at y rhyngwyd	C1 20% mwyaf mddifadus	0.0147729	-0.0416661	0.0712119	0.608	0.047247	0.0158111	0.0786828	0.003
	<i>Mynediad at y rhyngwyd</i>								
Sgôr gwasanaethau WIMD	Dim mynediad at y rhyngwyd	0.1133131	0.0271892	0.199437	0.01	0.0263216	-0.0136659	0.0663092	0.197
	<i>C5 20% lleiaf amddifadus</i>								
	C4	-0.0055206	-0.0571779	0.0461367	0.834	-0.0033986	-0.0354806	0.0286834	0.836
	C3	-0.004324	-0.0556846	0.0470366	0.869	-0.0376212	-0.0669908	-0.0082415	0.012
	C2	0.0010813	-0.0507337	0.0528963	0.967	-0.016932	-0.0459115	0.0120475	0.252

Newidyn	<u>Amddifadedd materol aelwydydd</u>					<u>Amddifadedd materol yn benodol i blant</u>			
	Cyfyngau hyder					Cyfyngau hyder			
	Newid yn y pwynt canran	Ffin isaf	Ffin uchaf	c		Newid yn y pwynt canran	Ffin isaf	Ffin uchaf	c
C1 20% mwyaf mddifadus	-0.0184902	-0.0687915	0.0318112	0.471		-0.0085037	-0.0438632	0.0268557	0.637